# Gweithio gyda'n gilydd am ddyfodol tecach

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 – 2029 Cyngor Bro Morgannwg

Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill, er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.

Gallwch ofyn am y ddogfen hon yn Gymraeg neu'n Saesneg.

# Gweithio gyda'n gilydd am ddyfodol tecach

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 – 2029

## Cyngor Bro Morgannwg

### Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | **3** |
| **Cyd-destun** | **7** |
| **Bro Morgannwg a'n Cyngor** | **7** |
| **Gweledigaeth a gwerthoedd** | **8** |
| **Datblygu'r Cynllun hwn** | **9** |
| **Data Cydraddoldeb** | **10** |
| **Gweithio i gefnogi cydraddoldeb** | **15** |
| **Amcanion cydraddoldeb – cyflawniadau** | **21** |
| **Amcanion cydraddoldeb – yr hyn y byddwn yn ei wneud** | **35** |
| **Monitro Cynnydd a Chyhoeddi Canlyniadau** | **58** |
| **I gael rhagor o wybodaeth** | **58** |
| **Tystiolaeth** | **59** |

# Cyflwyniad

Rydym yn falch o gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2025 - 2029 – **'Gweithio gyda'n gilydd am ddyfodol tecach'***.*

Ymysg data ac ymchwil arall, byddwn yn ystyried dadansoddiad o'n harolwg barn y cyhoedd diweddar, 'Beth am siarad am Fywyd yn y Fro', a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Pa mor Deg yw Cymru? 2023'. Rydym wedi alinio ein hamcanion cydraddoldeb strategol â'n hamcanion lles corfforaethol sydd, yn eu tro, wedi'u datblygu gydag ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid. Credwn y bydd datblygu'r blaenoriaethau ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol fel hyn yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well â'n busnes ac yn cryfhau eu heffaith.

Mae cynghorau'n chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cyrraedd pob aelod o'n cymdeithas, gan ystyried ystod o anghenion. Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r agenda cydraddoldeb ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, edrychwn ymlaen at gydweithio i barhau i gyflawni ein gweledigaeth o ddyfodol tecach.

Dim ond drwy gydweithio, parchu a gwrando ar ein gilydd y gallwn lwyddo i ateb yr amryw heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus heddiw. Er mwyn cyflawni'r Cynllun hwn ac er mwyn diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau, bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn eang. Mae'n cynnwys gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, ein partneriaid ym maes iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, yn ogystal â chyrff sector cyhoeddus eraill, y trydydd sector, Cynghorau Tref a Chymuned, ein cydweithwyr yn yr undebau llafur, a'n cymunedau.

Yn y Cynllun hwn, rydym yn cyflwyno ein hamcanion cydraddoldeb strategol yng nghyd-destun pum amcan lles corfforaethol newydd y Cyngor. Credwn fod y rhain yn ategu ei gilydd ac, ar y cyd, byddant yn cyflawni ein canlyniadau lles lleol a'r saith nod lles cenedlaethol:

| Amcanion Lles | Amcanion Cydraddoldeb Strategol |
| --- | --- |
| **Creu lleoedd gwych i fyw a gweithio ynddynt** | **Creu lleoedd tecach i fyw a gweithio ynddynt** |
| **Parchu a dathlu'r amgylchedd** | **Creu mynediad tecach i'r amgylchedd lleol** |
| **Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb** | **Rhoi cyfle tecach i bawb gael dechrau da mewn bywyd** |
| **Cefnogi ac amddiffyn y rheini sydd ein hangen** | **Cefnogi ac amddiffyn y rheini sy'n wynebu'r anfantais fwyaf** |
| **Bod y Cyngor gorau y gallwn fod** | **Rhoi tegwch wrth wraidd gwasanaethau a chyflogaeth y Cyngor** |

Mae Bro Morgannwg yn ardal amrywiol sy’n cynnwys cymunedau gwahanol iawn sydd â dyheadau, anghenion a phryderon gwahanol. Mae ein Cynllun yn nodi sut y byddwn yn gweithio i fodloni’r anghenion hynny, mynd i’r afael â phryderon a helpu pobl o bob grŵp gwarchodedig i gyflawni eu dyheadau. P’un a ydych chi’n byw neu’n gweithio yn ein trefi neu yn un o’n cymunedau mwy gwledig, byddwn yn parhau i ymdrechu i wneud bywyd yn well, a gwneud ein rhan wrth fynd i’r afael â'r materion sy'n effeithio ar y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld ag yma.

Rydym yn awdurdod uchelgeisiol a blaengar. Rydym yn hyderus y gall staff, aelodau etholedig, y gymuned a phawb sydd â rhan yn y Fro barhau i 'weithio gyda'n gilydd am ddyfodol tecach'**.** Yn y ffordd hon, gallwn sicrhau ein bod ni i gyd yn cyflawni 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'.

| | |
| --- | --- |
| **Y Cynghorydd Lis Burnett** | **Rob Thomas** |
| **Arweinydd y Cyngor** | **Prif Weithredwr** |

## Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yw disgrifio'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni ein dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (‘y ddyletswydd gyffredinol') a'r dyletswyddau penodol i Gymru.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cwmpasu wyth nodwedd warchodedig:

| | |
|---|---|
| Oedran | Hil |
| Anabledd | Crefydd neu Gred |
| Ailbennu Rhywedd | Rhyw |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cyfeiriadedd Rhywiol |

Mae'r ddyletswydd yn cynnwys priodas a phartneriaeth sifil, ond yng nghyd-destun yr angen i ddileu gwahaniaethu yn unig.

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru cynghorau fel awdurdodau cyhoeddus â dyletswyddau penodol. Mae hyn yn golygu, pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaeth gyhoeddus, bod yn rhaid i ni roi sylw dyledus i'r canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a’r rheini nad ydynt yn eu rhannu; a
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a phobl heb un o’r nodweddion hynny.

Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;
- rhoi camau ar waith i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig pan fo’r anghenion hynny’n wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill pan fo'r gyfran ohonyn nhw sy'n cymryd rhan yn gymharol isel.

Mae'r dyletswyddau penodol yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd i ddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol. Maent yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Amcanion | Hyfforddiant staff |
| Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol | Caffael |
| Ymgysylltu | Adroddiadau blynyddol |
| Asesu effaith | Cyhoeddi |
| Gwybodaeth am gydraddoldeb | Adroddiadau Gweinidogion Cymru |
| Gwybodaeth am gyflogaeth | Adolygu |
| Gwahaniaethau cyflog | Hygyrchedd |

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn egluro pa gamau rydym yn eu cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Er mwyn nodi'r blaenoriaethau, rydym wedi defnyddio ymchwil o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac adborth gan drigolion a sefydliadau sy'n gweithio ym Mro Morgannwg, gan gynnwys ein harolwg barn y cyhoedd, 'Beth am Siarad am Fywyd

yn y Fro'. Rydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau ac yn cyflogi pobl.

**Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a Threchu Tlodi**

Ar 31 Mawrth 2021, daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru. Mae'n gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn helpu'r rheini sy’n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Rydym wedi diweddaru ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb i adlewyrchu hyn ac wedi cynnwys camau gweithredu sy'n gysylltiedig â hyn yn y cynllun.

Gwyddom fod anghydraddoldebau rhwng ein cymunedau â'r amddifadedd mwyaf a’n cymunedau â'r amddifadedd lleiaf yn y Fro. Mae rhai pobl a theuluoedd yn ei chael hi'n anodd ac mae angen mwy o help a chymorth arnynt, naill ai dros dro neu’n fwy hirdymor. Mae rhai grwpiau o bobl yn wynebu lefelau arbennig o uchel o dlodi. Mae’r rhain yn cynnwys:

- teuluoedd mwy
- teuluoedd y mae eu cyfrifoldebau gofal plant yn cyfyngu ar eu gallu i weithio
- pobl o'r mwyafrif byd-eang
- pobl anabl
- gofalwyr anffurfiol
- teuluoedd nad ydynt mewn gwaith
- gweithwyr rhan-amser a'r hunangyflogedig
- pobl sy'n byw mewn llety rhent
- teuluoedd sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm
- pobl hŷn ar incwm sefydlog

Mae'r Cynllun hwn yn nodi camau i atal a threchi tlodi fel y mae ein cynllun corfforaethol, Y Fro 2030.

## Y Gymraeg

Mae gennym Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar wahân i nodi ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu ar gyfer y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg yn bobl â nodweddion gwarchodedig a bydd angen i ni ystyried yr effaith groestoriadol ar bobl o unrhyw gynigion a chynlluniau sydd gennym ar waith. Mae ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb yn cael ei diweddaru i gryfhau'r ystyriaeth hon.

## Cyd-destun

Mae'r byd yn newid yn gyflym ac mae cyd-destun y Cynllun hwn yn newid yn rheolaidd yn yr un modd. Yr hyn sy'n aros yr un peth yw'r angen i'r Cyngor ymgysylltu â'r gymuned a chynllunio at y dyfodol, i weithio gyda'n partneriaid a chroesawu newid. Rhaid i ni hefyd ystyried sut y bydd ein gweithredoedd a'n penderfyniadau yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae cyfleoedd a phrofiadau'n amrywio ar draws yr ardal gyda phobl yn byw mewn rhai ardaloedd dan anfantais ac yn ddifreintiedig. Yn ogystal â hyn mae ein poblogaeth yn heneiddio ac mae angen i ni sicrhau y gall gwasanaethau fodloni anghenion newidiol y boblogaeth wrth iddi heneiddio. Mae angen i ni feddwl yn glir am ba wasanaethau a ddarparwn a sut rydym yn eu darparu. Rhaid i ni ystyried anghenion amrywiol y boblogaeth, boed hynny oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, eu hamgylchiadau ariannol, neu un o nifer o resymau eraill a all effeithio ar ba wasanaethau a chymorth sydd eu hangen ar bobl.

Ers i ni gytuno ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf yn 2020, bu llawer o newidiadau sydd wedi effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys COVID-19, a'r argyfwng costau byw. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o gynlluniau fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru a Chymru o Blaid Pobl Hŷn. Caiff rhywfaint o'r blaenoriaethau hyn eu hadlewyrchu yn y Cynllun hwn, a byddwn yn parhau i ystyried datblygiadau sy'n ymwneud â'r cynlluniau hyn yn ein gwaith.

## Bro Morgannwg a'n Cyngor

Rydym am sicrhau bod gan bawb ym Mro Morgannwg fynediad teg a chyfartal at ein gwasanaethau. Rydym hefyd am iddynt gael triniaeth deg a chyson wrth ymdrin â ni, ac yn eu cyflogaeth gyda ni.

Rhaid i'r egwyddorion a ddisgrifir yn y ddyletswydd gyffredinol fod yn sail i'r ystod eang o wasanaethau a ddarparwn. Mae'r rhain yn cynnwys tai, addysg, gofal cymdeithasol a llyfrgelloedd yn ogystal â gofalu am ein harfordir, ein parciau a'n gerddi.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025–2029 y Cyngor yn cysylltu â'r Cynllun Corfforaethol, Y Fro 2030.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bro Morgannwg, ein gwerthoedd a'n prif flaenoriaethau. Bydd blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn helpu i wneud cymunedau ym Mro Morgannwg yn decach. Mae'r amcanion cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cefnogi'r gwaith hwn, a dyna pam mae amcanion y ddau gynllun wedi'u halinio. Mae'r amcanion cydraddoldeb hefyd yn cyd-fynd â Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor.

## Gweledigaeth a gwerthoedd

Gweledigaeth ein Cyngor yw **'Cymunedau cryf â dyfodol disglair'.**
Mae gennym gyfres o werthoedd corfforaethol sy'n sail i'n gwaith: uchelgeisiol; agored; ynghyd; a balch. Dyma beth maen nhw'n ei olygu wrth feddwl am gydraddoldeb a chydweithio i adeiladu dyfodol tecach.

**Uchelgeisiol**

Meddwl at y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.

Ar gyfer cydraddoldeb, mae hyn yn golygu cefnogi pobl i gyflawni eu potensial a bywyd da iddyn nhw eu hunain, beth bynnag fo'u cefndir neu eu nodweddion gwarchodedig.

**Agored**

Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau yr ydyn ni'n eu gwneud.

Ar gyfer cydraddoldeb, mae hyn yn golygu siarad â phobl a sefydliadau a all ein helpu i ddeall y problemau a'r rhwystrau i bobl â nodweddion gwarchodedig. Yna gallwn ystyried hyn pan fyddwn yn gwneud ein penderfyniadau.

| | |
|---|---|
| **Ynghyd** | Gweithio fel tîm sy’n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a’n partneriaid, sy’n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon.<br><br>Ar gyfer cydraddoldeb, mae hyn yn golygu gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol ein preswylwyr a'n cymunedau. |
| **Balch** | Balch o Fro Morgannwg: balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.<br><br>O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu bod pawb yn teimlo eu bod yn byw mewn cymuned lle maent yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys, yn gallu bod yn falch o bwy ydyn nhw a'r rhan maen nhw'n ei chwarae wrth wneud Bro Morgannwg yn lle da i fyw. |

Mae ein gwerthoedd yn gyson â'r pum ffordd o weithio sy'n ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent yn rhai hirdymor, maent yn gweithio gyda'i gilydd, ac yn cynnwys gweithio gydag eraill. Bydd ein gwerthoedd yn cefnogi mwy o ffocws ar atal wrth i ni weithio i gyflawni ein gweledigaeth.

Mae ein blaenoriaethau cydraddoldeb yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn benodol, bydd yn ein helpu i gyfrannu at nodau llesiant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys creu Cymru fwy cyfartal.

## Datblygu'r Cynllun hwn

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i lunio'r cynllun hwn a'r amcanion cydraddoldeb. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Data diweddaraf y cyfrifiad.
- Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach? 2023' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol .

- Gwybodaeth o ddogfennau'r Cyngor megis y Cynllun Corfforaethol, Y Fro 2030;
- Gwybodaeth a data lleol, gan gynnwys arolwg barn y cyhoedd y Cyngor, 'Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro';
- Ymgynghori ac ymgysylltu;
- Cynlluniau Llywodraeth Cymru;
- Gwybodaeth gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

Mae'r wybodaeth hon wedi llunio'r camau a gymerir i gyflawni amcanion cydraddoldeb y Cyngor rhwng 2025 a 2029.

Mae'r wybodaeth ganlynol am y boblogaeth leol yn darparu peth o'r cyd-destun ar gyfer yr hyn sydd angen ei gyflawni. Daw'r data hwn o ystod o ffynonellau allanol gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Data Cymru a StatsCymru.

Y data mwyaf cadarn sydd ar gael ar gyfer Bro Morgannwg yw data o Gyfrifiad 2021. Mae data ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Blynyddol y Boblogaeth 2019. Mae data hefyd ar gael ar gyfer nifer o nodweddion gwarchodedig ar lefel ranbarthol o'r Arolwg Blynyddol y Boblogaeth. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn llunio'r Cyfrifiad a'r Arolwg Blynyddol y Boblogaeth.

## Data Cydraddoldeb

### Ethnigrwydd

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2021 fod 131,800 o bobl yn byw ym Mro Morgannwg. O'r rhain, nododd y mwyafrif, 124,800 (94.6%) eu bod yn Wyn. Nododd 2,987 (2.3%) eu bod yn hanu o grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig, nododd 2,807 (2.1%) eu bod yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig, nododd 624 (0.5%) eu bod yn Ddu, Affricanaidd, Caribïaidd, neu'n Ddu Prydeinig. Cynyddodd canran y bobl a nododd eu grŵp ethnig yn y categori "Arall" ("Arabaidd" neu "Unrhyw grŵp ethnig arall") o 0.3% yn 2011 i 0.5% yn 2021.

**Cenedligrwydd**

Gall ymatebwyr ddewis atebion lluosog mewn ymateb i'r cwestiwn o genedligrwydd yn y Cyfrifiad. Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2021, o bobl ym Mro Morgannwg, fod 55.5% neu 73,276 wedi nodi bod ganddynt ‘hunaniaeth Gymraeg yn unig' a 21.1% neu 27,805 yn nodi bod ganddynt ‘hunaniaeth Brydeinig yn unig' a 2.5% neu 3,357 wedi nodi fel cenedligrwydd arall yn unig.

**Prif Iaith**

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 98.2% neu 125,798 o bobl tair oed ac yn hŷn ym Mro Morgannwg yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith. Y brif iaith uchaf nesaf ar 0.4% oedd 'Ieithoedd Ewropeaidd Eraill (UE)' - mae hyn yn cynnwys ieithoedd Ewropeaidd fel Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

**Y Gymraeg**

Yn ôl Cyfrifiad 2021, amcangyfrifwyd y gallai 13.3% o bobl ym Mro Morgannwg siarad, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg. Mae hyn yn gynnydd o 10.8% neu 17,047 o bobl dros 3 oed yn 2011, gyda Bro Morgannwg yn un o bedwar awdurdod lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd (mae pob ardal arall wedi gweld gostyngiad).

**Anabledd**

Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 19.9% o'r ymatebwyr eu bod yn anabl. O'r rhain, nododd 11% eu bod yn anabl gyda 'gweithgareddau o ddydd i ddydd ychydig yn gyfyngedig’ ac 8.9% fel rhai anabl gyda 'gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn’. Nododd 35.3% o aelwydydd fod ganddynt berson anabl ar yr aelwyd.

**Oedran**

44 oed oedd oedran canolrifol y boblogaeth ym Mro Morgannwg.

Rhwng 2011 a 2021, roedd cynnydd o 24.9% mewn pobl 65 oed ac yn hŷn. Yn 2021, amcangyfrifwyd bod 22% o boblogaeth Bro Morgannwg yn 65 oed ac yn hŷn.

Mae Bro Morgannwg wedi gweld cynnydd o 4.3% mewn plant dan 15 oed. Yn 2021, amcangyfrifwyd bod 18.6% o’r boblogaeth yn 15 oed ac yn iau.

**Rhywedd**

Amcangyfrifodd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2022, yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021, fod 69,124 (52%) o'r boblogaeth yn fenywod a 64,368 (48%) yn ddynion.

**Ailbennu Rhywedd**

Mae hunaniaeth rhywedd yn cyfeirio at ymdeimlad unigolyn o'i rywedd ei hun, p'un a yw rhywun yn ddyn, yn fenyw neu'n gategori arall, fel anneuaidd. Gall hyn fod yr un peth â'r rhywedd, neu beidio, a gofrestrwyd ar ei enedigaeth. Roedd hwn yn gwestiwn gwirfoddol a ofynnwyd am y tro cyntaf trwy Gyfrifiad 2021. O'r rheini a atebodd y cwestiwn ar hunaniaeth rhywedd ym Mro Morgannwg, dewisodd 94.5% o bobl 16 oed ac yn hŷn fod ganddynt 'hunaniaeth rhywedd yr un peth â'r rhywedd a gofrestrwyd ar eu genedigaeth', dewisodd 0.36% o bobl fod ganddynt 'hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhywedd a gofrestrwyd ar eu genedigaeth', dewisodd y 5.17% sy'n weddill beidio ag ateb y cwestiwn.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Term ymbarél yw cyfeiriadedd rhywiol sy'n cwmpasu hunaniaeth rywiol, atyniad ac ymddygiad. Ar gyfer ymatebydd unigol, efallai na fydd y rhain yr un peth. Roedd hwn yn gwestiwn gwirfoddol a ofynnwyd am y tro cyntaf trwy Gyfrifiad 2021. O'r rheini a atebodd y cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol ym Mro Morgannwg, dewisodd 90.3% o bobl 16 oed ac yn hŷn 'yn syth neu'n heterorywiol', dewisodd 3.07% gyfeiriadedd 'Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Arall (LHD+)', a dewisodd y 6.6% sy'n weddill beidio ag ateb y cwestiwn.

**Crefydd neu Gred**

O'r 124,397 o bobl a ddewisodd ateb y cwestiwn crefyddol gwirfoddol, atebodd y gyfran uchaf, 47.9% neu 63,164 o bobl, nad oedd ganddynt unrhyw grefydd. Yn 2021, atebodd 44.1% neu 58,237 o bobl eu bod yn Gristnogion. Yr ymlyniad crefyddol mwyaf nesaf oedd Mwslimiaid ar 0.9% a 1,205 o bobl.

**Statws Priodasol**

Yn 2021, roedd 47.4% neu 50,928 o bobl ym Mro Morgannwg yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig (gostyngiad bach o 48.9% yn 2011).

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Ychydig iawn o ddata sydd ar gael ar feichiogrwydd a mamolaeth. Yn 2022, y data diweddaraf sydd ar gael, roedd 1,171 o enedigaethau byw ym Mro Morgannwg.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn 2021, roedd 824,983 o achosion o feichiogi ar gyfer menywod o bob oed yng Nghymru a Lloegr, dyma'r cynnydd cyntaf yn y chwe blynedd diwethaf. Menywod rhwng 30 a 34 oed oedd â'r nifer uchaf a'r gyfradd feichiogi am y bumed flwyddyn yn olynol a'r ganran isaf o feichiogi a arweiniodd at erthyliad. Mae'r gyfradd feichiogi ar gyfer menywod dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr wedi mwy na haneru ers 2011 pan oedd yn 30.9 o feichiogi fesul 1,000 o fenywod o'r un oedran; yn 2021 roedd yn 13.2 i bob 1,000 o fenywod o'r un oedran.

**Economaidd-gymdeithasol**

Mae ein dadansoddiad o'r data economaidd diweddaraf (Ionawr 2025) yn dangos:

- Ym mis **Rhagfyr 2024**, roedd **2,515 o bobl, sef 3.19%** o'r boblogaeth o oedran gweithio, **nad oeddent mewn cyflogaeth ac yn derbyn cymorth diweithdra ym Mro Morgannwg.** Mae hyn yn ostyngiad o'r mis blaenorol.

- Nid yw nifer y bobl y cofnodwyd eu bod heb fod mewn cyflogaeth ac yn derbyn cymorth diweithdra wedi **newid ar gyfer pobl 18–24 oed, a chafwyd gostyngiad ar gyfer pobl 25–49 oed a phobl 50+ oed ers mis diwethaf**. Mae'r ffigurau'n parhau'n uwch na'r lefelau cyn y pandemig ar gyfer pob grŵp oedran ac eithrio pobl 18-24 oed.

- Mae'r nifer uchaf o bobl yn ôl AGEHI **nad oeddent mewn cyflogaeth ac yn derbyn cymorth diweithdra ym Mro Morgannwg** wedi'u cofnodi yn **Castleland 1,** ac amcangyfrifir bod **115 o bobl** heb fod mewn cyflogaeth ac yn derbyn cymorth diweithdra. Mae hyn yn **cymharu â 5 yn Stanwell 2 ac Illtyd 6**.

- Ym mis **Tachwedd 2024**, roedd cyfanswm o **13,075** o bobl yn derbyn **Credyd Cynhwysol ym Mro Morgannwg**, **nid oedd 8,092** o'r rheini a oedd yn derbyn **Credyd Cynhwysol mewn cyflogaeth,** gyda **4,982 mewn cyflogaeth; mae hyn yn cyfateb i 8% o gyfanswm y bobl sydd mewn cyflogaeth ym Mro**

**Morgannwg.** Ers mis Mawrth 2022, bu cynnydd cyson o fis i fis yng nghyfanswm y bobl a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn rhan o strategaeth hirdymor y llywodraeth i symud pobl o Fudd-daliadau Tai i CC, proses sy'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl.

- Mae'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) hynny, a nodwyd gan MALIC 2019 fel y rhai â mwy o amddifadedd ym Mro Morgannwg, sydd yn dangos y niferoedd uchaf o bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Mae ardaloedd yn nwyrain y Barri yn dangos niferoedd uwch o bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol; mae data ar gyfer mis **Tachwedd 2024 yn dangos mai Castleland 1 a gofnodwyd â'r nifer uchaf o bobl a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol, sef 625 o bobl; o'r rhain, nid oedd y mwyafrif, sef 425, mewn cyflogaeth, o'u cymharu â 201 mewn cyflogaeth.** (Sylwer, efallai na fydd amcangyfrifon AGEHI yn talgrynnu i gyfanswm oherwydd gweithdrefnau i sicrhau na ellir adnabod unigolion).

- Yn y **Flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2024,** amcangyfrifir mai **72.80%** oedd y **Gyfradd Gyflogaeth** ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn ostyngiad o 3.8 pwynt ar y flwyddyn.

- Yn y **Flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2024**, amcangyfrifir mai **3.2%** oedd y **Gyfradd Ddiweithdra** ym Mro Morgannwg. Roedd hyn **yr un peth â'r flwyddyn flaenorol. Mae diweithdra wedi cynyddu 0.2% yn y chwarter diwethaf o 3.0% i 3.2%.** Daw'r data hwn o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol - mae'r gyfradd ddiweithdra yn seiliedig ar 10-25 o ymatebion i'r arolwg a dylid ei ddefnyddio'n ofalus.

- **Ym mis Mai 2024,** cyfanswm y bobl a oedd yn derbyn **Credyd Pensiwn** ym Mro Morgannwg oedd **2,725**. Mae nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Pensiwn wedi gweld **gostyngiad cyffredinol ers mis Chwefror 2020**. Ym mis Mai 2024, allan o gyfanswm y bobl ym Mro Morgannwg a oedd yn derbyn Credyd Pensiwn, **yr oedd 49% rhwng 70 a 79 oed**. Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, felly mae'r swm a ddyfernir yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau. Ym mis Mai 2024, roedd y gyfran fwyaf, **22%, o bobl yn derbyn £100 i lai na £150 y mis,**

**gan oddiweddyd cyfran y bobl ar lai nag £20 a oedd y swm uchaf ers mis Chwefror 2020**. Ym mis Mai 2024, yr ACEHIau â'r nifer uchaf o bobl sy'n derbyn Credyd Pensiwn oedd Dinas Powys 3 (108), Cadoc 1 (81) a Dyfan 3 (81). Ym mis Mai 2024, y Wardiau Etholiadol â'r nifer uchaf o bobl sy'n derbyn Credyd Pensiwn oedd wardiau Cadog (242), Buttrills (199) ac Illtyd (197).

- Ym mis **Tachwedd 2024,** y **Pris Tai Canolrifol a dalwyd** ym Mro Morgannwg oedd **£292,490**, mae hyn yn gynnydd o **£7,536** ar y flwyddyn ac yn cynrychioli gostyngiad o **£8,027** yn y chwarter.

- Ym mis **Rhagfyr 2024,** y **Pris Rhent Preifat ar gyfartaledd** oedd **£894, cynnydd ar y flwyddyn o £833** ac yn dilyn y cynnydd cyson ers mis Mehefin 2021. Ym mis Rhagfyr 2024, y newid blynyddol pris rhentu preifat oedd 6.4%, gostyngiad o 6.5% ym mis Tachwedd 2024.

- Ym mis **Rhagfyr 2024,** amcangyfrifwyd bod **Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr** yn **2.5%, gostyngiad o 2.6% ym mis Tachwedd 2024.**

- **Cyfradd anweithgarwch economaidd** Bro Morgannwg **ar gyfer mis Hydref 2023 i fis Hydref 2024 oedd 25.6%.** Roedd hyn yn gynnydd chwarterol o 2.6% o 23% rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mehefin 2024. O'r rheini a oedd yn economaidd anweithgar ym Mro Morgannwg, **nid yw 84.9% eisiau swydd, cynnydd o 1.4% o bwyntiau canran o'r chwarter blaenorol**. Mae hyn yn cymharu â **13.9%** o'r rheini a oedd yn economaidd anweithgar ym Mro Morgannwg sydd eisiau swydd, gostyngiad o 1.4% o bwyntiau canran rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mehefin 2024**.**

## Gweithio i gefnogi cydraddoldeb

**Ein Cyngor**

Mae’r wybodaeth isod yn rhoi ffeithiau allweddol am y Cyngor, ei adnoddau a sut mae'r sefydliad yn gweithio i gefnogi cydraddoldeb.

- I gefnogi’r gwasanaethau rydym yn eu darparu, mae’r Cyngor yn dibynnu ar weithlu medrus sy’n cynnwys athrawon, peirianwyr a gweithwyr cymdeithasol.

- Ar y cyfan, mae’r Cyngor yn cyflogi dros 5,000 o staff, gan gynnwys y rheini a gyflogir mewn ysgolion.

- Yn Arolwg Staff 2022, roedd 76.7% o staff naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiad 'Rwy'n falch o weithio i Gyngor Bro Morgannwg'. Roedd 68.2% o bobl naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddent yn argymell Cyngor Bro Morgannwg fel lle da i weithio.

- Mae 55 ysgol ym Mro Morgannwg, gan gynnwys 7 ysgol Gymraeg.

- Mae gan y Cyngor bron 4,000 o gartrefi.

- Mae 54 o gynghorwyr etholedig gan gynnwys y Cabinet, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor a saith Cynghorydd arall (pum menyw, tri dyn).

Mae'r sector cyhoeddus yn parhau i wynebu llawer o heriau. Bydd y ffordd rydym yn gweithio, yr hyn a ddisgwylir gennym a hynny o adnoddau sydd ar gael i ni oll yn newid yn fawr wrth i ni symud ymlaen â'n cynlluniau.

Ein dyletswydd yw sicrhau ein bod yn dal i roi gwasanaethau i’r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, y caiff pobl ifanc y dechrau gorau mewn bywyd a bod y Fro’n ddiogel, yn lân ac yn ardal y mae pobl dal am fyw, gweithio ac ymweld â hi.

Mae’r amcanion a’r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn rhoi fframwaith i’n gweithgareddau dros y pedair blynedd nesaf, gan weithio gydag a thros ein cymunedau lleol i fodloni eu hanghenion a’u dyheadau amrywiol.

## Codi Ymwybyddiaeth

Mae gennym lwyfan dysgu ar-lein lle gall cydweithwyr gael mynediad at ystod o fodiwlau e-ddysgu. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth ddiwylliannol
- Anabledd a gwahaniaethu
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth – datblygu ymwybyddiaeth
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Fro
- Asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth o Pride a LHDTC+
- Ymwybyddiaeth o bobl draws
- Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg

O bryd i'w gilydd, rydym yn trefnu sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth eraill fel ymwybyddiaeth o hil. Yn ogystal, mae materion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys mewn hyfforddiant corfforaethol arall, megis hyfforddiant recriwtio.

Mae datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn helpu ein cydweithwyr i wybod sut i ddarparu gwasanaeth teg sy'n diwallu anghenion amrywiol y bobl sy'n ei ddefnyddio.

## Asesu Effaith

Mae proses ar waith i werthuso effaith debygol polisïau neu arferion sy'n cael eu cynnig, eu hadolygu neu eu diwygio ar grwpiau gwarchodedig, pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg. Mae'r broses yn helpu'r Cyngor i ystyried effaith ein gwaith ar bob un o'r grwpiau hyn.

Rydym yn annog cydweithwyr i gasglu a dadansoddi gwybodaeth a data i weld sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o'n sylfaen dystiolaeth mewn asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb.

Rydym yn defnyddio'r broses hon, er enghraifft, i asesu effaith debygol polisïau ac arferion gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r gyllideb flynyddol. Rydym yn ystyried a oes risg bod ein penderfyniadau yn debygol o gael effaith sylweddol ar grwpiau gwarchodedig. Os gallwn weld y gallai fod un, gallwn ystyried a allwn wneud unrhyw beth i osgoi hyn rhag digwydd, neu i'w lliniaru.

Lle ceir effaith sylweddol, cyhoeddir manylion gydag adroddiadau'r Cabinet ar wefan y Cyngor.

Rydym yn parhau i adolygu'r broses hon ac yn ceisio gwneud gwelliannau gan gynnwys y rheini a argymhellir yn adroddiad Archwilio Cymru, 'Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag ymarfer blwch ticio'.

**Enghreifftiau o arfer da**

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol bobl. Rydym yn gwneud ystod eang o waith sy'n cyfrannu at hyn.

Dyma rai esiamplau o'n gwaith.

- Rydym yn cefnogi rhwydweithiau staff: **GLAM** - ein rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol ac anneuaidd (LHDTCRh+); **Amrywiol** – ein rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr mwyafrif byd-eang a lleiafrifoedd ethnig; ac **Abl** – ein rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr ag anableddau.

- Rydym yn gwahodd arweinwyr y rhwydweithiau staff i gyfarfodydd Uwch Dîm Arwain am ddiweddariadau, deialog a chymorth.

- Mae gennym Hyrwyddwyr Lles sy'n hyrwyddo ymgyrchoedd iechyd a lles, yn cyfeirio cydweithwyr at wasanaethau perthnasol, ac yn annog cydweithwyr i gymryd rhan ym mentrau a gweithgareddau lles y Cyngor.

- Rydym wedi cynnal gweithdai ar gyfer staff corfforaethol ac ysgolion ar ymwybyddiaeth hil.

- Rydym wrthi'n gweithio tuag at well gynwysoldeb o ran hil, gan weithio o fewn fframweithiau perthnasol i lywio ein gwaith fel ein bod yn cael ein cyfeirio gan brofiad byw pobl. Mae Race Equality Matters wedi dyfarnu statws Silver Trailblazer a Safe Space Plus Trailblazer i ni.

- Rydym wedi cynnal cyfarfodydd Safe Space rhwng ein Rhwydwaith Staff Amrywiol a'n Huwch Dîm Arwain i drafod materion yn ymwneud â hil a chytuno ar gamau blaenoriaeth.

- Rydym wedi gwneud cais i gael ein cydnabod fel Sir Noddfa, ac mae gennym gynllun gweithredu i gefnogi hyn.

- Rydym wrthi'n gweithio tuag at well gynwysoldeb o ran pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol ac anneuaidd, gan weithio o fewn fframweithiau perthnasol i lywio ein gwaith fel ein bod yn cael ein cyfeirio gan brofiad byw pobl. Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall. Rydym wedi derbyn gwobr Arian am ein cyflwyniad Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle ac rydym ymhlith y 100 gorau.

- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd gwaith.

- Rydym yn cynnal digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocost blynyddol.

- Rydym yn cefnogi Fforwm 50+ y Fro. Mae hwn yn grŵp ymgysylltu cyhoeddus gweithredol sy'n cynnig llais i bobl dros 50 oed.

- Mae tref fwyaf Bro Morgannwg, y Barri, wedi derbyn statws 'Tref sy’n Deall Dementia' gan y Gymdeithas Alzheimer’s. Mae gennym grŵp llywio gweithredol i

sicrhau ein bod yn cyflawni ein cynllun gweithredu. Mae gennym nifer sylweddol o gyfeillion Dementia hyfforddedig.

- Buom yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud Bro Morgannwg yn lle gwell i heneiddio ynddo, a daethom yn bedwaredd ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru i ennill Statws Lle o Gyfleoedd i'r Henoed gan Sefydliad Iechyd y Byd.

- Mae gennym weithgor cynhwysiant digidol sy'n datblygu strategaeth i gael mwy o bobl ar-lein. Mae ein staff llyfrgell yn hyrwyddwyr digidol sy'n gallu helpu'r cyhoedd gyda'u hymholiadau. Gall y cyhoedd gael mynediad i ystafelloedd cyfrifiadurol mewn llyfrgelloedd. Mae'r tîm Dysgu Oedolion yn y Gymuned a llyfrgelloedd yn cynnig ystod o raglenni hyfforddi cynhwysiant digidol. Rydym wedi gwella mynediad Wi-Fi mewn cartrefi gwarchod ac yn bwriadu gwneud hyn mewn cartrefi gofal.

- Rydym yn darparu cludiant cymunedol Greenlinks mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae hyn yn cynnwys bysus y gall pobl anabl eu defnyddio'n hawdd. Mae Greenlinks yn helpu pobl heb drafnidiaeth i gael mynediad at wasanaethau ac i ryngweithio'n gymdeithasol.

- Rydym yn darparu bws i Dinas Powys Voluntary Concern, gwasanaeth cymorth cymunedol ar lawr gwlad. Mae hyn yn helpu i gludo pobl i ganolfan feddygol newydd nad yw'n hawdd ei chyrraedd.

- Mae gennym TREV (Y Cerbyd Sicrwydd ac Ymgysylltu) sy'n ein helpu i fynd â gwybodaeth am ddiogelwch i'r gymuned.

- Mae gennym gynllun prynu gwyliau blynyddol ar waith, ac rydym yn treialu newidiadau i'n system amser hyblyg i roi mwy o hyblygrwydd i staff wrth reoli eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

- Rydym yn cynnal Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, gan ddod â swyddogion a thimau ar draws y Cyngor ynghyd â sefydliadau, grwpiau ac elusennau allanol sydd â diddordeb arbennig mewn pobl â nodweddion gwarchodedig penodol.

Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith hwn. Mae mwy o enghreifftiau i'w gweld yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol a gyhoeddir ar ein gwefan.

## Amcanion cydraddoldeb – cyflawniadau

Rhwng 2020 a 2024, gwnaed cynnydd da yn erbyn pob un o'r deg amcan cydraddoldeb. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r hyn a wnaed ar gyfer pob un.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 1

**Gwella sut rydym yn cynnwys, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â grwpiau gwarchodedig am ein gwaith a'n penderfyniadau.**

Gwnaethom lansio porth Cymryd Rhan y Fro i sicrhau bod gweithgareddau ymgynghori, ymgysylltu a chyfranogiad y Cyngor yn cael eu dwyn ynghyd i un hyb ar-lein sy'n hawdd ei gyrraedd. Ynghyd â Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, mae'r Cyngor yn anelu at fod yn fwy amrywiol o ran dulliau o ymgysylltu a chysylltu â chynifer o randdeiliaid â phosib yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae ein Tîm Cyfathrebu yn rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor gan gynnwys Facebook, X/Twitter ac, yn fwy diweddar, Instagram. Mae gan y cyfrif Facebook corfforaethol 25,000 o ddilynwyr. Mae gan y cyfrif Cymraeg 144 o ddilynwyr. Mae gan y cyfrif X/Twitter corfforaethol 22,400 o ddilynwyr tra bod gan y cyfrif Cymraeg 653 o ddilynwyr.

Mae'r Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb yn cynnwys sefydliadau allanol sy'n cynrychioli gwahanol nodweddion gwarchodedig a grwpiau. Mae'r rhain yn cynnwys Diverse Cymru, Race Equality First, Stonewall, Mind ym Mro Morgannwg, Vale People First, Cyngor ar Bopeth, a Fforwm 50+ y Fro. Mae aelodau etholedig enwebedig yn mynychu fel y mae swyddogion y Cyngor sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Ieuenctid, Bro Oed-Gyfeillgar, y Tîm Byw'n Iach, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adnoddau Dynol.

Cyfarfu'r Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb hyd at bedair gwaith y flwyddyn i drafod ystod o gynlluniau a mentrau corfforaethol yn ogystal â rhai eitemau gan bartneriaid allanol.

Rydym yn parhau i gefnogi Fforwm Strategaeth 50+ y Fro sy’n cynnig llais i bobl hŷn ym Mro Morgannwg. Rydym yn cefnogi'r Fforwm i gynnal cyfarfodydd personol i bobl 50+ oed rannu eu barn ar bynciau pwysig, yn ogystal â chyfres o ddigwyddiadau 'Dweud Eich Dweud' cyhoeddus.

Gwnaethom benodi Swyddog Bro Oed-Gyfeillgar sy'n parhau i hyrwyddo cynllun gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau gyda phobl hŷn ac aelodau Fforwm 50+ y Fro.

Mae'r tîm Strategaeth a Mewnwelediad yn annog y defnydd o ddata i gefnogi a llunio polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor. Mae'r tîm yn llunio'r Adroddiad Misol Economaidd, y Dadansoddiad Costau Byw, a dadansoddiad Cyfrifiad 21 sy'n rhoi cipolwg amhrisiadwy ar gymunedau ym Mro Morgannwg, gan gynnwys y rheini a allai fod yn ddifreintiedig, yn profi pwysau economaidd-gymdeithasol, a'r rheini â nodweddion gwarchodedig. Rhennir yr adroddiadau gydag adrannau'r Cyngor i'w defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn well.

Mae'r dulliau ymgysylltu a chasglu gwybodaeth hyn ar draws y Cyngor yn cael eu hategu gan waith tebyg mewn gwasanaethau unigol. Maent yn werthfawr wrth lywio'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 2

**Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog i leiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn mis Mawrth 2024, ac adrodd ar y ddau yn flynyddol.**

Rydym yn monitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn chwarterol. Rydym yn adrodd ar y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau i Lywodraeth Cymru. Rydym yn adrodd ar y

bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn chwarterol trwy ddangosyddion perfformiad ac yn flynyddol trwy'r adroddiad hwn.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu ychydig ers y llynedd. Y gwahaniaeth yng nghyfradd gymedrig yr awr rhwng gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yw £0.65, gostyngiad o £1.03 y llynedd. Y gwahaniaeth yn y gyfradd ganolrifol fesul awr rhwng dynion a menywod yw £0.59. Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau fel canran o gyflog dynion yw 3.71% a'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau fel canran o gyflog dynion yw 3.81%, sy'n llai na bwlch cyflog canolrifol y DU o 8.1%.

Rydym hefyd yn monitro'r bwlch cyflog o ran ethnigrwydd yn rheolaidd, gan adrodd fel rhan o Ddangosyddion Perfformiad Chwarterol y Cyngor. Y bwlch cyflog cymedrig o ran ethnigrwydd yw 5.73%, cynnydd ers y llynedd.

Cafodd yr adolygiad cyflog diwethaf yn 2019 mewn perthynas â'r raddfa Cyd-gyngor Cenedlaethol ddiwygiedig effaith gadarnhaol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn parhau i fonitro'r bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac o ran ethnigrwydd. Wrth recriwtio i rolau, rydym yn ystyried ble rydym yn hysbysebu i sicrhau ein bod yn cael cynrychiolaeth ar draws yr holl grwpiau sy'n ymgeisio. Rydym yn parhau i weithio ar wella ein proffil amrywiaeth.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 3

**Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchodedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, i adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn agosach erbyn mis Mawrth 2024.**

Gwnaethom gefnogi'r rheini sy'n profi rhwystrau i waith a hyfforddiant drwy nifer o gynlluniau a mentrau gyda Cymunedau am Waith a Mwy. Rydym yn defnyddio data i dargedu grwpiau penodol fel ymgysylltu â mwy o fenywod drwy waith rhiant unigol. Buom yn gweithio ar wahanol brosiectau ar gyfer grwpiau penodol lle mae tystiolaeth yn dangos ei bod yn anoddach cael mynediad at gyflogaeth.

Rydym yn cynnal digwyddiadau cyflogadwyedd, yn codi ymwybyddiaeth o brentisiaethau, ac yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid ar ddigwyddiad hyfforddiant a chyflogaeth llwyddiannus ar gyfer ieuenctid yn 2023.

Rydym wedi ariannu mentoriaid cyflogaeth drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl, anableddau, anghenion synhwyraidd ac awtistiaeth i sicrhau sgiliau a chyflogaeth.

Gwnaethom gyflwyno system gofnodi newydd ar gyfer gweithwyr, Fusion, ym mis Ebrill 2023. Porth hunanwasanaeth yw hwn sy'n caniatáu i staff ddiweddaru eu manylion personol eu hunain. Gwnaethom gynnal ymgyrch gyfathrebu i annog staff i ddiweddaru eu manylion. Rydym wedi nodi cynnydd o 7.3% mewn gwybodaeth a gofnodwyd. O'r herwydd, gallwn adrodd yn fwy cywir ar ein gweithlu o ran nodweddion gwarchodedig, a gallwn nodi tueddiadau a grwpiau newydd i ganolbwyntio recriwtio arnynt.

Lansiodd Adnoddau Dynol brosiect recriwtio dramor yn 2023 i fynd i'r afael â swyddi gwag ym maes gofal. Rydym wedi gweithio gyda chymunedau i gefnogi staff newydd.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 4

**Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn mis Mawrth 2024.**

Rydym yn annog yr holl staff i neilltuo amser ar gyfer datblygiad personol a chymryd rhan mewn rhaglenni fel Infuse a mentora o chwith. Ail-lansiwyd rhwydwaith y Caffi Dysgu ym mis Hydref 2023. Ei nod yw dod â staff ynghyd o bob rhan o'r awdurdod i rannu syniadau ac adnoddau, gan hyrwyddo cydweithio ar themâu fel 'pŵer cymunedol' a 'thrawsnewid'.

Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi tri rhwydwaith staff:

- **GLAM**: ar gyfer aelodau a chynghreiriaid LHDTC+

- **Amrywiol**: ar gyfer staff a chynghreiriaid Du, Asiaidd, mwyafrif byd-eang, pobl hil-ddiffiniedig
- **Abl**: ar gyfer staff a chynghreiriaid ag anableddau

Mae'r rhwydweithiau yn darparu cymorth a gwybodaeth i aelodau, yn rhannu gwybodaeth a phrofiadau, yn ymgynghori â nhw ar bolisïau'r Cyngor, ac yn helpu i lywio hyfforddiant. Mae'r rhwydweithiau'n bwysig wrth ddangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei werthoedd a'i ddiwylliant corfforaethol fel cyflogwr cynhwysol o ddewis. Buom yn gweithio gyda'r rhwydweithiau i gyflawni achrediadau amrywiol. Rydym yn arddangos ac yn hyrwyddo'r rhain ar ein tudalennau recriwtio allanol. Gwnaethom ychwanegu dolenni at yr achrediadau a'r rhwydweithiau ar faner y wefan.

Rydym yn parhau â'n gwaith fel Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall gan ddefnyddio Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall i feincnodi ein gwaith. Rydym yn monitro ac yn gwerthuso gwelliannau tuag at gynnwys ein gweithlu LHDTC+ ymhellach. Ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, dyfarnwyd gwobr arian i ni yn 2024 ac fe'n rhestrwyd ymhlith y 100 cyflogwr gorau.

Rydym yn aelodau o Race Equality Matters ac wedi defnyddio ei broses Trailblazer i werthuso cynnydd i ddod yn fwy cynhwysol i'n cydweithwyr yn y mwyafrif byd-eang. Dyfarnwyd statws Silver Trailblazer a Safe Space Plus Trailblazer i ni.

Rydym yn cyhoeddi erthyglau ar Staffnet i nodi gwahanol ddiwrnodau a digwyddiadau ymwybyddiaeth. Drwy rannu gwybodaeth am y diwrnodau a'r digwyddiadau ymwybyddiaeth hyn gallwn godi ymwybyddiaeth o wahanol grwpiau a lleiafrifoedd, gan gyfrannu at amgylchedd gwaith mwy cynhwysol. Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod cynnwys perthnasol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ar iDev ar gael.

Ar gyfer Wythnos Genedlaethol Cynhwysiant ym mis Medi, gwnaethom gynnal digwyddiad ar-lein lle'r oedd cynrychiolwyr o GLAM, Amrywiol, Abl, a'r Hyrwyddwyr Lles yn gallu trafod eu rhwydweithiau ac ateb cwestiynau gan staff.

Mae hyrwyddwyr lles yn hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau lles ar draws y sefydliad ac agorwyd gardd les ganddynt yng nghwrt y Swyddfeydd Dinesig yn 2022.

Ail-lansiwyd y Caffi Dysgu ym mis Hydref 2023 ar gyfer staff ar draws y Cyngor ac ysgolion. Mae'n cynnwys wyth grŵp pwnc sy'n ceisio ysgogi twf personol a phroffesiynol, a hyrwyddo trafodaethau ystyrlon a chydweithio ar draws yr awdurdod.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 5

**Darparu cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.**

Mae gan aelodau fynediad at IDev, sy’n cynnal ystod o fodiwlau e-ddysgu ar faterion cydraddoldeb. Gallant gyrchu adnoddau, sesiynau blaenorol a chyflwyniadau trwy MemberNet. Ers hynny, rydym wedi darparu gwybodaeth am faterion cydraddoldeb menywod ac ymwybyddiaeth o hil.

Gwnaethom hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer aelodau etholedig yn orfodol yn 2022 fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu newydd i aelodau. Rydym yn parhau i adolygu hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau ac yn trefnu i ddiwallu anghenion a nodwyd.

Mae'r tîm Strategaeth a Mewnwelediad yn darparu data a dadansoddiad i aelodau etholedig, gan gynnwys ar faterion cydraddoldeb a nodweddion gwarchodedig.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 6

**Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc a rhoi cymorth i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.**

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn parhau i fod yn bryder. Gwnaethom gynnal ymgyrch gyfathrebu eang i annog presenoldeb yn yr ysgol. Rydym wedi cynnig hyfforddiant a chymorth, a hefyd wedi sefydlu Fforymau Swyddogion Presenoldeb yn yr Ysgol a gwasanaeth galw heibio i ysgolion drafod materion â'r tîm.

Mae’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) wedi cyflawni'r Wobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf, gan gydnabod y gwaith da a wnaed yn darparu cyngor a chymorth i deuluoedd.

Ailenwyd y tîm Grwpiau Agored i Niwed yn Dîm Cysylltiadau Dysgu ar ôl trafodaethau â phlant a phobl ifanc.

Buom yn gweithio gydag ysgolion i wella adnabod a chofnodi digwyddiadau bwlio a digwyddiadau untro o ragfarn o fewn cronfa ddata Fy Mhryder.

Gwnaethom ddarparu ystod o raglenni ac ymyriadau i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed i wneud cynnydd cadarnhaol. Rydym yn cynnal clinigau rheolaidd mewn ysgolion gyda'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc i frysbennu a chyfeirio plant sydd angen gofal a chymorth.

Mae gennym adroddiad ysgol rithwir ar waith i fonitro ac olrhain presenoldeb plant gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal ac a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol sydd mewn perygl o dangyflawni; plant y lluoedd; gofalwyr ifanc; a phlant o'r mwyafrif byd-eang.

Buom yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau bod plant o'r mwyafrif byd-eang yn cael eu cefnogi'n effeithiol gyda'u haddysg. Ni adawodd unrhyw blant mwyafrif byd-eang, na phlant lle mae’r Saesneg yn iaith ychwanegol addysg orfodol, hyfforddiant neu brofiad gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd misol am leoedd mewn ysgolion gydag adrannau sy'n cefnogi teuluoedd sy'n ceisio lloches. Mae'r Tîm Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn gwneud yn fawr o gyllid grant i ddarparu cyrsiau SSIE i ysgolion cynradd lleol.

Rydym yn gweithio gyda Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i sicrhau bod gan Blant Digwmni sy’n Ceisio Lloches fynediad at ddarpariaeth addysg lle bynnag y cânt eu

lleoli. Hyd yma, mae deuddeg Plentyn Digwmni sy’n Ceisio Lloches wedi ymgartrefu'n llwyddiannus mewn ysgolion a cholegau ym Mro Morgannwg.

Gwnaethom helpu ysgolion a dysgwyr i lansio grwpiau Amrywiol iau, yn Ysgol Gynradd Holltwn ac Ysgol Gyfun Sant Cyres i ddechrau. Gwnaethom gefnogi'r ddwy ysgol i gynnal cyfarfodydd safe space iau gydag aelodau o Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor, lle bu'r plant a'r bobl ifanc yn gofyn cwestiynau i uwch arweinwyr y Cyngor. Gwnaethom hwyluso prosiect celfyddydol yn Ysgol Gynradd Holltwn i ddathlu Diwrnod Windrush yn 2023. Gwahoddwyd uwch swyddogion a chynghorwyr i'r ysgol i weld y gwaith.

Cyflwynodd ein carfan gyntaf o ysgolion gwrth-hiliol eu Hymchwil Weithredu ym mis Mehefin 2023. Cyflwynodd yr ail garfan eu Hymchwil Weithredu ym mis Gorffennaf 2024.

Lansiwyd y Cynllun Dehonglwyr Ifanc mewn 19 ysgol, gan ddarparu hyfforddiant i'r ysgolion ar ddefnyddio'r adnodd i gynyddu lles a hunan-barch dysgwyr amlieithog. Hwyluswyd yr adnodd iaith a llythrennedd Giglets mewn 37 ysgol er mwyn galluogi dysgwyr amlieithog i gael mynediad at destunau ac adnoddau yn eu hiaith eu hunain.

Mae'r prosiectau hyn wedi helpu ysgolion wrth i ni eu cefnogi i ddod yn Ysgolion Noddfa ochr yn ochr â'n Cyngor yn gweithio i ddod yn Sir Noddfa.

Rydym wedi canolbwyntio ar gyfranogiad i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed, gan gynnwys y Cyngor Ieuenctid, Gweithredu Ieuenctid a mentrau Rhwydwaith y Cyngor Ysgol.

Gwnaethom gefnogi grŵp 'Ei Llais, Cymru' gyda'i ymgyrch #nidydymynteimlonddiogel a oedd yn anelu at godi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol. Dyfarnwyd Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid i'r grŵp am Arddangos Rhagoriaeth mewn cynllunio a darparu mewn partneriaeth.

Mae gennym fentrau gwaith ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys FI YW FI, HWB, a Youthy18+.

Gwnaethom ddatblygu'r Pecyn Cymorth a'r Canllawiau ar gyfer pobl ifanc Traws, a'u cyflwyno i ysgolion a llywodraethwyr yn 2023/24. Mae'r pecyn cymorth yn rhan o'r gyfres o ganllawiau a ddarparwn i ysgolion ar ystod o faterion gan gynnwys bwlio, diogelu a nodweddion gwarchodedig.

O fis Medi 2022 gwnaethom gynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. O fis Ebrill 2023, ymestynnwyd hyn i bob plentyn ysgol gynradd. Roedd y dyddiadau hyn cyn uchelgeisiau Llywodraeth Cymru.

Mae ysgolion yn parhau i annog rhieni cymwys i wneud cais am Grantiau Hanfodion Ysgol (a elwid gynt yn Grantiau Datblygu Disgyblion), gan gynnwys ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cyrhaeddodd Ysgol Gynradd Tregatwg y 3 uchaf ar gyfer Gwobr Ysgol Orau'r Byd 2023 am Oresgyn Trallod.

Agorwyd ysgol arbenigol newydd, Derw Newydd, yn 2023. Disodlodd yr unedau cyfeirio disgyblion blaenorol, Y Daith yn y Bont-faen ac Ymddiriedolaeth Amelia. Mae Derw Newydd yn cynnig darpariaeth bwrpasol i ddisgyblion sydd angen cymorth ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl cymhleth.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 7

**Datblygu a gweithredu prosesau gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throseddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

**Strategaeth Partneriaeth Bro Ddiogelach 2023-2028**

Gwnaethom lansio Strategaeth Partneriaeth Bro Ddiogelach newydd ar gyfer 2023 – 2028. Gallwch weld y strategaeth yma.

Rydym wedi gweithio gyda Cymru Ddiogelach a nifer o wasanaethau arbenigol i gyfeirio dioddefwyr y gallai fod angen cymorth gwahanol arnynt. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys Bawso, Prosiect Dyn, New Pathways, Rainbow Bridge, a Byw Heb Ofn. Buom yn gweithio gyda Gwasanaeth Cam-drin Domestig y Fro - y darparwr cymorth arbenigol ym Mro Morgannwg.

Gwnaethom lansio'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), wedi'i diweddaru ar gyfer 2023-28. Mae'r strategaeth wedi'i diweddaru yn cynnwys ymrwymiadau newydd ynghylch tagu, plant yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, yn ogystal â pholisïau newydd ar gyfer aflonyddu ar y stryd ac yn y gweithle.

Rydym yn hwyluso cyfarfodydd amlasiantaethol ddwywaith yr wythnos sy'n gwella canlyniadau i ddioddefwyr cam-drin domestig risg uchel.

Gwnaethom barhau i hyrwyddo Cyfraith Clare fel arf hanfodol i gefnogi diogelwch menywod sy'n credu y gallent fod mewn perthynas â throseddwr cam-drin domestig.

Gwnaethom brosesu Hysbysiadau Diogelu’r Cyhoedd (HDCau) safonol a chanolig lle mae'r dioddefwr wedi rhoi caniatâd i'w data gael ei rannu. Mae dioddefwyr cam-drin domestig yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i welliannau diogelwch i’w cartrefi a ddarperir gan Bartneriaeth Bro Ddiogelach.

Mae'r digwyddiadau casineb mwyaf cyffredin oherwydd hil, cyfeiriadedd rhywiol a materion trawsryweddol. Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu De Cymru i fynd ati i hyrwyddo’r gwaith o adrodd am droseddau casineb. O'r herwydd, nid yw cynnydd yn nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt o reidrwydd yn arwyddion o gynnydd gwirioneddol mewn troseddau casineb.

Rydym yn rhedeg y Grŵp Cydlyniant Cymunedol, gyda staff yn cysylltu â chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd. Mae swyddog cydlyniant cymunedol ymroddedig yn cefnogi cynnydd ar y camau gweithredu yn y cynllun cydlyniant cymunedol ac yn helpu i hyrwyddo mentrau cymunedol a diwrnodau cenedlaethol drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae gan y tîm Diogelwch Cymunedol gylch gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwnaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd penodol, fel adeiladau adfeiliedig yng nghanol tref y Barri, a niwsans ieuenctid mewn parciau ysgogi'r tîm Diogelwch Cymunedol i gymryd mesurau mwy ataliol. Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer gwaith ymgysylltu â phobl ifanc.

Rydym yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar hyd arfordir Bro Morgannwg a Chaerdydd dan Ymgyrch Elstree. Nod y dull amlasiantaethol hwn yw cadw ardaloedd arfordirol yn ddiogel ac yn addas i deuluoedd.

Rydym wedi treialu gwasanaeth newydd ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig gwrywaidd. Gwnaethon ni gomisiynu gwasanaeth lloches ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd a dioddefwyr trawsryweddol o gam-drin domestig.
Mae gennym fetrig ar drais ac ymddygiad ymosodol yn y gweithle. Mae'r ystadegau trais ac ymddygiad ymosodol a'r ystadegau ymddygiad sy'n dwysáu ar gyfer ysgolion, yn cynnwys monitro a yw nodweddion gwarchodedig yn ffactor.

Mae Ei Llais, Cymru yn grŵp o ferched 13-17 oed o Fro Morgannwg a ddechreuodd yr ymgyrch #nidydymynteimlonddiogel i godi ymwybyddiaeth o chwibanu amhriodol ac aflonyddu rhywiol. Gweithiodd Ei Llais, Cymru gyda Diogelwch Cymunedol i roi Cyngor Bro Morgannwg ar Rwydwaith Cenedlaethol Mannau Diogel. Mae hwn yn rhoi sticeri i leoliadau a busnesau lleol i ddynodi man diogel i ddianc rhag chwibanu amhriodol neu aflonyddu rhywiol. Enillodd Ei Llais, Cymru wobr genedlaethol yng Ngwobrau Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 8

**Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchodedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.**

Mae tai yn un o'r wyth parth a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd fel nodwedd o gymunedau sy'n dda i bobl hŷn. Mae gweithio tuag at Fro Oed-Gyfeillgar yn ymrwymiad o fewn Siarter Bro Oed-Gyfeillgar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bydd yn rhan o gynllun gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar.

Lansiodd Fforwm 50+ y Fro grŵp pwnc tai, gan fod tai yn ffocws allweddol i'r aelodau. Cyfarfu arweinwyr y grŵp tai â staff o'r adran Tai i drafod y Strategaeth Tai Pobl Hŷn.

Gwnaethom agor trydydd 'tŷ clyfar' i alluogi pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad i lety modern o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth trwy dechnoleg ddigidol.

Gwnaethom gwblhau'r gwaith o adnewyddu cartrefi preswyl y Fro. Mae'r pedwar cartref preswyl bellach yn ddementia-gyfeillgar, gan adlewyrchu angen y boblogaeth a gwella canlyniadau i breswylwyr.

Rydym wedi datblygu'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn ac rydym wedi gweithio i gwblhau'r camau gweithredu sydd ynddi.

Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gwnaethom benodi Swyddog Ailgartrefu Cyflym i fwrw ymlaen â chamau gweithredu o fewn Polisi Ailgartrefu Cyflym y Cyngor.

Cafodd Teleofal y Fro a TEC Cymru eu henwebu yng nghategori Arloesedd GAD Newydd yng Nghynhadledd Gofal a Alluogir gan Dechnoleg Ryngwladol 2024.

Gwnaethom ddatblygu tua 90 o unedau llety dros dro yn Llanilltud Fawr i ddarparu tai byrdymor o ansawdd uchel i ffoaduriaid o Wcráin. Rydym wedi ymrwymo i ddatganiad Llywodraeth Cymru bod Cymru'n 'Genedl Noddfa', ac yn parhau i wneud ymdrech sylweddol i helpu'r rheini mewn angen.

Mae Tîm Ailsefydlu'r Fro yn parhau i gynorthwyo ffoaduriaid i ailgartrefu ym Mro Morgannwg. Mae gan y Cyngor brofiad cadarn o gynorthwyo pobl o rannau eraill o'r byd gan gynnwys y rheini sy'n ffoi rhag rhyfeloedd yn Affganistan, Syria a Wcráin. Mae'r Tîm yn gweithio'n agos gyda thimau eraill y Cyngor i sicrhau bod bywydau newydd yn integreiddio yn y Fro.

Cyhoeddom yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2022 ac rydym yn parhau i ystyried angen llety Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg yn awr ac yn y dyfodol o fewn cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) hyd at 2036.

Mae Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn helpu llawer o bobl ledled Bro Morgannwg gyda'u costau tai. Bu gostyngiad yn y llwyth achos Budd-dal Tai a

Gostyngiad y Dreth Gyngor o oedran gweithio, sy'n adlewyrchu bod mwy o bobl oedran gweithio wedi symud i Gredyd Cynhwysol. Mae ein monitro yn helpu i sicrhau bod pensiynwyr yn parhau i wneud cais am Fudd-dal Tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Rydym yn gweithio gyda'r Tîm Digartrefedd i sicrhau bod tenantiaid sy'n agored i niwed yn cael eu nodi, fel y gallwn wneud yr hyn a allwn i sicrhau bod rhent yn cael ei dalu, fel dyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 9

**Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn.**

Mae trafnidiaeth yn parhau i fod yn bryder allweddol i lawer o bobl hŷn ac yn ffocws i Fforwm 50+ y Fro. Mae gan grŵp pwnc trafnidiaeth Fforwm 50+ y Fro berthynas gref â Thîm Trafnidiaeth y Cyngor a darparwyr lleol eraill. Mae trafnidiaeth yn un o'r wyth parth a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd fel nodwedd o gymunedau sy'n dda i bobl hŷn. Mae mynediad at fathau addas o drafnidiaeth yn ymrwymiad o fewn Siarter Bro Oed-Gyfeillgar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â nodwedd o gynllun gweithredu drafft sy'n dod i'r amlwg Bro Oed-Gyfeillgar.

Gwnaethon ni gwblhau'r gyfnewidfa drafnidiaeth yn Swyddfeydd y Dociau yn y Barri.

Rydym yn defnyddio cyllid Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru i helpu preswylwyr i ddewis opsiynau teithio llesol bob dydd i fod yn iach ac yn gysylltiedig â chymunedau. Rydym hefyd yn derbyn cyfraniadau ariannol Adran 106 i wella gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth mewn ardaloedd lleol.

Gwnaethom gwblhau gwelliannau i gerddwyr a beicwyr ar draws y Fro.

Buom yn gweithio gydag Ysgol Gynradd Fairfield ym Mhenarth a Sustrans i lansio cau stryd ysgol gyntaf y Fro yn 2023 fel rhan o fenter 'Stryd Ysgol' i ddarparu amgylchedd diogel di-draffig i ddisgyblion gyrraedd yr ysgol.

Rydym yn cyfrannu at y cynllun cenedlaethol i ddarparu pasys bws rhatach i bobl 60 oed ac yn hŷn, a phobl sydd ag anableddau penodol. Roedd gan tua 72% o drigolion Bro Morgannwg 60 oed ac yn hŷn, bàs bws rhatach dilys. Rydym hefyd yn rhedeg bysus Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks.

Rydym hefyd yn mynd ati i hyrwyddo cynllun Fy Ngherdyn Teithio sy'n darparu teithio gostyngedig i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed, a'r cynllun Waled Oren ar gyfer pobl ag awtistiaeth.

Rydym yn parhau i ddefnyddio grantiau Llywodraeth Cymru i alluogi’r gwaith o uwchraddio arosfannau a llochesi bysus, gan gynnwys gwelliannau hygyrchedd.

### Amcan Cydraddoldeb Strategol 10

**Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchodedig.**

Yn ganolog i'r amcan hwn mae un o Amcanion Lles 2023 - 28 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Bro fwy gwydn a gwyrddach, Bro fwy gweithgar ac iachach, Bro fwy teg a chysylltiedig.

Sefydlodd Fforwm 50+ y Fro grŵp pwnc newid hinsawdd newydd. Mae mannau awyr agored hygyrch yn un o'r wyth parth a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd fel nodwedd o gymunedau sy'n dda i bobl hŷn. Mae gweithio tuag at Bro Oed-Gyfeillgar lle mae gan bobl fynediad i fannau awyr agored ac adeiladau diogel sydd â chyfleusterau addas yn ymrwymiad o fewn Siarter Bro Oed-Gyfeillgar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn ymddangos yng nghynllun gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar. Gwnaethom gynnal digwyddiadau ymgynghori i lywio'r cynllun gweithredu.

Gwnaethom lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru ac rydym bellach yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gryfhau sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda chymunedau lleol i nodi cyfleoedd datblygu. Gwnaethom ddatblygu cynlluniau creu lleoedd ar gyfer pedair canol

tref y Fro gyda ffocws ar nodi blaenoriaethau allweddol i wella eu hunaniaethau ffisegol, diwylliannol a chymdeithasol unigryw i'w galluogi i ffynnu yn yr hirdymor.
Mae'r tîm Twristiaeth a Digwyddiadau yn cefnogi calendr eang o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Er bod rhai yn cael eu cefnogi'n ariannol, mae eraill yn cael eu cefnogi gyda chyngor, offer a marchnata.

Cynhaliwyd peilotiaid Strydoedd Chwarae mewn dwy stryd breswyl yn y Barri, dan arweiniad trigolion gyda chymorth Tîm Chwarae'r Fro a Chwarae Cymru. Roedd hyn yn golygu cau'r ffordd am ddwy awr y mis, pan allai plant a thrigolion gymryd rhan yn ddiogel mewn chwarae a chymdeithasu yn yr awyr agored.

Daeth cyllid Cymunedau Gwledig Creadigol i ben ym mis Rhagfyr 2021 ac fe'i disodlwyd yn 2022 gan Cymunedau Creadigol, datblygwyd tîm cronfeydd a grantiau newydd.

## Amcanion cydraddoldeb – yr hyn y byddwn yn ei wneud

Ein gweledigaeth '**Cymunedau cryf â Dyfodol Disglair'** yw uchelgais y Cyngor i greu Bro Morgannwg gyda chymunedau cryf, hapus ac iach, lle mae pob aelod o'n cymuned yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi ac yn gallu byw eu bywyd i'r eithaf. Rydym am weithio'n agos gyda'n cymunedau a chreu a meithrin perthnasoedd da gyda'r holl bartneriaid cymunedol. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned, mentrau cymdeithasol, cyrff cyhoeddus a busnesau.

Ein gwerthoedd yw bod yn **agored, gyda'n gilydd, bod yn uchelgeisiol ac yn falch** ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd rydym yn gweithio gydag eraill.

Mae gennym nifer o amcanion a chamau gweithredu hirdymor i'w cymryd yn ystod y cyfnod rhwng 2025 a 2029. Credwn y bydd llawer o'r rhain o fudd i bob grŵp gwarchodedig ac yn berthnasol i nodweddion gwarchodedig. Bydd rhai yn canolbwyntio

mwy ar bobl â nodweddion gwarchodedig penodol lle yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan anfantais.

Wrth i ni weithio tuag atynt, rydym yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r hyn y mae angen i ni ei wneud i ddiwallu anghenion grwpiau gwarchodedig. Gan fod gennym adnoddau cynyddol gyfyngedig, byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae ymchwil, data a phrofiad yn dweud wrthym fod yr angen mwyaf.

Mae’r adran hon yn darparu gwybodaeth am bob un o’n hamcanion cydraddoldeb - yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni a'r gweithgareddau a wnawn i'w cyflawni. Yn adran olaf y Cynllun hwn, rydym yn darparu tystiolaeth yr ydym wedi ei defnyddio i ddatblygu ein hamcanion.

Rydyn ni'n dangos sut mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cysylltu ag amcanion corfforaethol Y Fro 2030 - sy'n bwysig, fel bod y gwaith yn y ddau Gynllun yn cyd-fynd. Bydd hyn yn helpu i brif ffrydio ein gwaith ar fynd i'r afael ag ardaloedd lle mae'r anfantais fwyaf dybryd.

Mae'r amcanion cydraddoldeb hyn yn ategu ein gwaith i gyflawni'r pum ffordd o weithio a chyfrannu at ein hamcanion lles fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi’i ddatblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio ac maent hefyd yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys y Cynllun. Mae pwyslais mawr ar gydweithio wrth i'r Cyngor gydnabod yr angen i weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau a gwella lles lleol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu pwysigrwydd atal. Mae hwn yn gynllun pedair blynedd ond rydyn ni'n cydnabod y gall llawer o'r materion fod hyd yn oed yn fwy hirdymor.

Ar gyfer pob amcan, rydym yn rhoi sylwadau ar y nodweddion gwarchodedig y mae'n berthnasol iddynt, y canlyniadau disgwyliedig, y camau gweithredu, a sut y byddwn yn gwybod pa gynnydd yr ydym yn ei wneud.

**Amcan 1 Y Fro 2030:**

**Creu lleoedd gwych i fyw a gweithio ynddynt**

**Amcan Cydraddoldeb Strategol 1:**

**Creu lleoedd tecach i fyw a gweithio ynddynt**

## Nodweddion gwarchodedig, anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg

Mae'r amcan hwn yn fuddiol i bob nodwedd warchodedig ac yn benodol, oedran, anabledd, hil, pobl sy'n byw mewn tlodi, y Gymraeg.

| Sut byddwn yn gwneud hyn | Canlyniadau disgwyliedig | Sut y byddwn yn gwybod pa gynnydd yr ydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| Yn unol â chreu Bro Oed-Gyfeillgar, defnyddio dulliau caffael a chyllido i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad pobl hŷn at brentisiaethau pob oed o ansawdd uchel. | Gwell cyfleoedd i bobl hŷn gael mynediad at brentisiaethau. | Cynnydd yn nifer y prentisiaethau a ddelir gan bobl hŷn.<br><br>Data caffael ac ariannu - data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig |
| Defnyddio dulliau caffael a chyllido i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yr anabl sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau ac yn eu cwblhau. | Gwell cyfleoedd i bobl anabl gael mynediad at brentisiaethau. | Cynnydd yn nifer y prentisiaethau a ddelir gan bobl anabl a phobl o'r mwyafrif byd-eang.<br><br>Data caffael ac ariannu – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddio dulliau caffael a chyllido i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth y mwyafrif byd-eang sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau ac yn eu cwblhau. | Gwell cyfleoedd i bobl o'r mwyafrif byd-eang gael mynediad at brentisiaethau. | Cynnydd yn nifer y prentisiaethau a ddelir gan bobl anabl a phobl o'r mwyafrif byd-eang.<br><br>Data caffael ac ariannu – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Cefnogi mwy o bobl ag anableddau i gael gafael ar waith. | Mwy o bobl anabl yn dod o hyd i waith. | Cynnydd yn nifer y bobl anabl sy'n cael mynediad at gyflogaeth drwy Wasanaeth Cyflogadwyedd y Fro.<br>(Data Cyflogadwyedd y Fro). |
| Modelu a rhannu arfer gorau mewn recriwtio cynhwysol. | Mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am swyddi. | Nifer y partneriaid yr ydym wedi rhannu'r arferion recriwtio cynhwysol gorau â nhw. (Data Adnoddau Dynol). |
| Cynyddu a gwella llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. | Mae llety gwell ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. | Nifer cynyddol o safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr - data Tai.<br><br>Gwell cyfleusterau ar safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Data Tai – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Defnyddio rhaglen adeiladu tai'r Cyngor i dargedu gofal | Gwell tai ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed a'r rheini sydd | Cynnydd mewn gofal ychwanegol, grwpiau sy’n |

| | | |
|---|---|---|
| ychwanegol, grwpiau sy'n agored i niwed, a llety brys ar gyfer pobl ddigartref. | angen gofal ychwanegol neu lety brys. | agored i niwed, a llety brys i bobl ddigartref.<br><br>Data Tai – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Rhoi camau gweithredu ar waith a fydd yn arwain at Fro Morgannwg yn dod yn Sir Noddfa. | Bydd pobl sy'n dod i Fro Morgannwg i fyw neu weithio yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi. | Mae'r Cyngor yn derbyn statws Sir Noddfa. |
| Adolygu sut mae'r gronfa Taliad Tai yn ôl Disgresiwn yn cael ei gweinyddu a'i hyrwyddo i helpu'r rheini nad ydynt yn gallu talu eu rhent. | Mae canllawiau wedi'u diweddaru ar waith i helpu aseswyr i wneud penderfyniadau talu priodol.<br><br>Mae pobl sydd angen cymorth i dalu eu rhent yn gwybod sut i wneud cais am gymorth ariannol ychwanegol yn y ffordd fwyaf syml. | Mae Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn monitro data sydd wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig a'i ddadansoddi i lywio arfer yn y dyfodol. |
| Hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | Mae pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. | Nifer y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg - Data Menter / Gwybodaeth Fforwm / Data monitro Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. |
| Rhoi Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022 - 2036 ar waith i sicrhau'r ansawdd bywyd gorau i bobl hŷn fyw mor | Mae pobl hŷn yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi i fyw'n annibynnol mewn tai priodol. | Arolygon<br><br>Y strategaeth ar waith. |

| | | |
|---|---|---|
| annibynnol â phosib yn ddiweddarach yn eu bywyd. | | |

**Amcan 2 Y Fro 2030:**

## Parchu a dathlu'r amgylchedd

**Amcan Cydraddoldeb Strategol 2:**

## Creu mynediad tecach i'r amgylchedd lleol

### Nodweddion gwarchodedig, anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg

Mae'r amcan hwn yn fuddiol i bob nodwedd warchodedig ac yn benodol, oedran, rhywedd, pobl anabl, grwpiau difreintiedig, pobl sy'n byw mewn tlodi.

| Sut byddwn yn gwneud hyn | Canlyniadau disgwyliedig | Sut y byddwn yn gwybod pa gynnydd yr ydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| Darparu cyngor ar reoli newid hinsawdd i bawb, ond yn enwedig pobl ifanc a'r rheini sy'n byw mewn tlodi. | Mae gan bobl bethau ymarferol, nad ydynt yn costio dim iddyn nhw, y gallant eu gwneud i reoli newid hinsawdd a'r effaith y gallai ei chael arnynt yn bersonol.<br><br>Ymgysylltiad cryfach â'r agenda newid hinsawdd.<br><br>Mae lleisiau ifanc yn cael eu clywed ar fater o bwys arbennig iddyn nhw. | Nifer yr ymgyrchoedd gwybodaeth.<br><br>Arolwg barn y cyhoedd, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi banciau | Mae pobl sy'n profi tlodi yn gallu cael gafael ar fwyd a | Mwy o hyrwyddo banciau bwyd a phrosiectau bwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| bwyd a phrosiectau bwyd fel bod gan y rheini mewn tlodi fynediad at fwyd a darpariaethau sylfaenol na allent eu fforddio fel arall. | darpariaethau sylfaenol na allent eu fforddio fel arall. | |
| Wrth gynllunio a hyrwyddo gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n cael cymhorthdal gan y Cyngor, gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth i sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn hygyrch. | Mae rhwystrau i ddefnyddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu lleihau drwy ystyried effaith cynllunio ar bobl. | Arolygon trafnidiaeth gyhoeddus – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Wrth wella ein seilwaith gwyrdd, sicrhau bod mynediad corfforol da i'r amgylchedd naturiol. | Mae rhwystrau i'r amgylchedd naturiol yn cael eu lleihau. | Gweithgareddau creu lleoedd lleol.<br><br>Arolwg barn y cyhoedd, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Gwirio gydag Ian Robinson ac Emily Shaw sut rydyn ni'n cyflwyno a mesur. |

**Amcan 3 Y Fro 2030:**

**Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb**

**Amcan Cydraddoldeb Strategol 3:**

**Rhoi cyfle tecach i bawb gael dechrau da mewn bywyd**

## Nodweddion gwarchodedig, anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg

Mae'r amcan hwn yn fuddiol i bob nodwedd warchodedig ac yn benodol, hil, anabledd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, tlodi, y Gymraeg.

| Sut byddwn yn gwneud hyn | Canlyniadau disgwyliedig | Sut y byddwn yn gwybod pa gynnydd yr ydym yn ei wneud |
| --- | --- | --- |
| Gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYADd). | Strategaethau i wella perfformiad pob dysgwr sy'n agored i niwed gyda ffocws penodol ar ddisgyblion cPYADd.<br><br>Gwella cyrhaeddiad disgyblion cPYADd.<br><br>Presenoldeb gwell ar gyfer disgyblion cPYADd. | Data wedi'i ddadgyfuno gan nodweddion gwarchodedig i fynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol anghymesur ar blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.<br><br>Data cyrhaeddiad a chynnydd cyfnod allweddol 4, gyda chymhariaeth rhwng disgyblion cPYADd a disgyblion nad ydynt yn PYADd.<br><br>Data presenoldeb, gyda chymhariaeth rhwng |

| | | |
|---|---|---|
| | | disgyblion cPYADd a disgyblion nad ydynt yn PYADd.<br><br>Manteisio i'r eithaf ar fewnwelediad data i alluogi ysgolion i gwestiynu a defnyddio eu data yn well i gynllunio'n weithredol ar gyfer gwelliannau a fydd yn codi lefelau presenoldeb, ymgysylltiad a chanlyniadau i ddysgwyr. |
| Mynd i'r afael â bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth rhywedd, gan gynnwys cofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau. | Mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi beth bynnag fo'u hunaniaeth rhywedd.<br><br>Mae systemau ar gyfer cofnodi, adrodd a monitro digwyddiadau ar waith.<br><br>Gwerthusir effeithiolrwydd gweithdrefnau a chymerir camau gweithredu lle nodir tueddiadau. | Data Bwlio – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Lleihau'r risg i ddisgyblion a myfyrwyr o brofi gwahaniaethu neu fwlio sy'n deillio o'u cyfeiriadedd rhywiol. | Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi beth bynnag fo'u cyfeiriadedd rhywiol. | Bwlio – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae systemau ar gyfer cofnodi, adrodd a monitro digwyddiadau ar waith.<br><br>Gwerthusir effeithiolrwydd gweithdrefnau a chymerir camau gweithredu lle nodir tueddiadau. | |
| Datblygu ysgolion cynhwysol a chymunedol ymhellach lle mae plant a'u teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu beth bynnag fo'u cefndir. | Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn aelod gwerthfawr o gymuned yr ysgol a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial.<br><br>Mae ysgolion yn ymgorffori ymagwedd Ysgolion Bro at lywio eu cynllunio gwella. | Ymgysylltu â'r Tîm Cysylltiadau Dysgu<br><br>Data Ysgolion Bro - drwy Reolwr Ysgolion Bro yn cynnwys data ar y defnydd o becyn cymorth Ysgolion Bro, YGaTh, a chymryd rhan weithredol mewn cynllunio gwella.<br><br>Data Selfie (data lles disgyblion o Fl 2 i fyny - yn benodol i'r Fro).<br><br>Data RhYIY (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion) data lles disgyblion cenedlaethol ar waith ar gyfer ysgolion uwchradd.<br><br>Data presenoldeb |

| | | |
|---|---|---|
| Cefnogi ysgolion i ddod yn Ysgolion Noddfa fel y nodir yn y weledigaeth o Gymru fel Cenedl Noddfa, a nodwyd yn wreiddiol yn y Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches (cenedl noddfa) ac yr adeiladwyd arno yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i ddiweddaru | Sefydlu arfer da wrth feithrin diwylliant o groeso, perthyn ac undod i'r rheini sy'n ceisio diogelwch.<br><br>Mae meini prawf gwobrwyo Ysgolion Noddfa yn cael eu bodloni a'u cynnal. | Canran yr ysgolion sy'n gweithio tuag at ac y dyfarnwyd statws Ysgolion Noddfa iddynt. |
| Parhau i gefnogi ysgolion i ymdrechu i ddod yn fwy gwrth-hiliol drwy ddysgu proffesiynol gan ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i ddiweddaru. | Mae gan staff a disgyblion gwell ymwybyddiaeth o sut i fod yn wrth-hiliol.<br><br>Mae pawb yng nghymuned yr ysgol yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn gallu cyflawni eu potensial.<br><br>Cymorth cwricwlwm CCD pan fydd ar gael. | Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol gwrth-hiliol.<br><br>Nifer y digwyddiadau dysgu proffesiynol i rannu arfer da.<br><br>Presenoldeb mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol. |
| Cefnogi ysgolion i godi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd. | Mae pobl ifanc yn dysgu am sut i gyfrannu at reoli newid hinsawdd. | Nifer yr ysgolion a gefnogir.<br><br>Gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion, er enghraifft, Arolwg Gwneud eich Marc<br><br>Ymgynghori ac ymgysylltu wedi'i gynllunio ar Brosiect Cymdogion Natur Ysgol Sant |

| | | |
|---|---|---|
| | | Curig i archwilio sefydlu gwarchodfa natur i'w defnyddio gyda'r ysgol fel adnodd addysgu ac fel prosiect ymgysylltu â'r gymuned i hyrwyddo a diogelu bioamrywiaeth.<br><br>Ymgysylltiad y Cyngor Ysgol.<br><br>Gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion a ddarperir gan CDC fel rhan o fanteision cymunedol. |
| Hyrwyddo'r cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd eraill i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. | Mae mwy o deuluoedd yn dewis ysgolion Cymraeg i'w plant.<br><br>Cynnal lefelau uchel o bontio dysgwyr o ysgolion cynradd Cymraeg i ysgolion uwchradd Cymraeg.<br><br>Mae gan bobl ifanc fynediad at ddarpariaeth ieuenctid cyfrwng Cymraeg a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. | Monitro'r camau gweithredu yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Data o Adroddiad FfCC DCyF a metrigau data cysylltiedig.<br><br>Data'r Gwasanaeth Ieuenctid ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r Urdd.<br>Nifer yr athrawon sy'n bresennol mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau Cymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nifer yr ysgolion Saesneg sy'n cymryd rhan ac yn ennill gwobr Cymraeg Campus y Gymraeg.<br><br>Nifer yr ysgolion Cymraeg sy'n cymryd rhan ac yn ennill y wobr Siarter Iaith.<br><br>Canran y dysgwyr sy'n pontio o ysgol gynradd Gymraeg i ysgol uwchradd Gymraeg. |
| Mynd i'r afael â'r niferoedd uchel a chynyddol o blant sy'n derbyn gofal. | Rhaglenni atal ac ymyrryd yn gynnar ar waith.<br><br>Rhaglenni i drechu tlodi ac adeiladu gwydnwch cymunedol.<br><br>Gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at gadw teuluoedd gyda'i gilydd.<br><br>Gwasanaethau 'ar ffiniau gofal' integredig. | Llai o blant sy’n derbyn gofal. |

**Amcan 4 Y Fro 2030:**

**Cefnogi ac amddiffyn y rheini sydd ein hangen**

**Amcan Cydraddoldeb Strategol 4:**

**Cefnogi ac amddiffyn y rheini sy'n wynebu'r anfantais fwyaf**

## Nodweddion gwarchodedig, anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg

Mae'r amcan hwn yn fuddiol i bob nodwedd warchodedig ac yn benodol, hil, oedran, hunaniaeth rhywedd, crefydd.

| Sut byddwn yn gwneud hyn | Canlyniadau disgwyliedig | Sut y byddwn yn gwybod pa gynnydd yr ydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| Lleihau lefelau digartrefedd, gan gynnwys y nifer anghymesur o bobl o'r mwyafrif byd-eang sy'n profi digartrefedd. | Mae llai o bobl yn ddigartref.<br><br>Mae llai o bobl o'r mwyafrif byd-eang yn ddigartref. | Data Tai – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br>Prosiectau wedi'u targedu? |
| Gweithio gyda phartneriaid i wella cymorth i ddioddefwyr a thystion o ran adrodd am elyniaeth a brawychu, a datblygu dulliau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â hwy. | Mae dioddefwyr a thystion gelyniaeth a brawychu yn teimlo eu bod yn gallu adrodd amdano, teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.<br><br>Mae dulliau effeithiol ar waith i fynd i'r afael â gelyniaeth a brawychu. | Data Diogelwch Cymunedol – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Arolygon – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal asesiadau anghenion gofalwyr ac yna gweithredu ar yr anghenion a nodwyd i sicrhau bod anghenion iechyd a lles gofalwyr yn cael eu diwallu. | Cynllun gweithredu i wella iechyd a lles yn seiliedig ar adborth gan ofalwyr. | Arolygon gofalwyr – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Cynyddu cynhwysiant digidol ar gyfer y rheini dros 65 oed. | Mae pobl dros 65 oed yn teimlo eu bod yn cael cymorth i ddefnyddio gwasanaethau digidol. | Cynllun gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar.<br><br>Arolwg barn y cyhoedd, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Sicrhau bod gwasanaethau, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, yn hygyrch i'r rheini heb fynediad at y rhyngrwyd neu sgiliau llythrennedd digidol. | Gall pobl gael mynediad at wasanaethau mewn gwahanol ffyrdd os nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd neu sgiliau llythrennedd digidol. | Arolwg barn y cyhoedd, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Cefnogi Heddlu De Cymru i gofnodi, adrodd a monitro digwyddiadau bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth rhywedd a gwerthuso effeithiolrwydd gweithdrefnau. | Mae mwy o bobl yn ymwybodol ac yn hyderus wrth adrodd am ddigwyddiadau bwlio yn ymwneud â hunaniaeth rhywedd. | Data troseddau casineb a chymorth i ddioddefwyr.<br><br>Arolygon – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Cefnogi’r gwaith o adolygu a datblygu gwasanaethau mwy priodol ar gyfer dioddefwyr a thystion troseddau casineb, gan ddeall gwahaniaethau | Mae dioddefwyr a thystion troseddau casineb yn teimlo'n hyderus wrth adrodd am droseddau casineb. | Data troseddau casineb a chymorth dioddefwyr – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |

| | | |
|---|---|---|
| ethnig mewn profiadau o ymosodiadau rhywiol a sicrhau yr adroddir am ddigwyddiadau a'u bod yn cael eu cofnodi. | Mae mwy o bobl o'r mwyafrif byd-eang yn ymwybodol ac yn hyderus wrth adrodd am droseddau casineb a digwyddiadau. | Arolygon – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Ymgyrchoedd wedi'u targedu at gymuned y mwyafrif byd-eang |
| Defnyddio'r Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau gofal yn diwallu anghenion pobl draws. | Mae mwy o bobl draws yn teimlo bod eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu'n briodol. | Arolwg o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Arolwg barn y cyhoedd, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Ymgysylltu wedi'i dargedu â phobl draws. |
| Defnyddio'r Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth i fynd i'r afael â materion mynediad at ofal cymdeithasol i bobl o'r mwyafrif byd-eang. | Mae mwy o bobl o'r mwyafrif byd-eang yn teimlo bod eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu'n briodol. | Arolwg o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Gwella'r broses o gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata cydraddoldeb defnyddwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys y rheini sy'n cwyno am | Canlyniadau gwael a brofir gan bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw. | Data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig, sy'n dadansoddi cwynion defnyddwyr gofal cymdeithasol. |

| | | |
|---|---|---|
| benderfyniadau neu'n eu herio. | | |
| Cymryd camau gweithredu i ddod yn Sir Noddfa lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi fel rhywun sy'n byw neu'n gweithio ym Mro Morgannwg. | Mae pobl sy'n dod i fyw neu weithio ym Mro Morgannwg yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi.<br><br>Mae diwylliant o letygarwch a chroeso yn cael ei sefydlu, yn enwedig ar gyfer unigolion sy'n ceisio noddfa rhag rhyfel ac erledigaeth. | Arolwg barn y cyhoedd, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Arolygon eraill – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig? |
| Cyflawni ein hymrwymiadau Oed-gyfeillgar a sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad at wasanaethau, cefnogaeth a chyfleoedd yn lleol a bod ganddynt lais cryf. | Mae pobl hŷn yn teimlo'n rhan werthfawr o'r gymuned y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu. | Arolwg barn y cyhoedd, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Cynllun Gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar. |

**Amcan 5 Y Fro 2030:**

**Bod y Cyngor gorau y gallwn fod**

**Amcan Cydraddoldeb Strategol 5:**

**Rhoi tegwch wrth wraidd gwasanaethau a chyflogaeth y Cyngor**

## Nodweddion gwarchodedig, anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg

Mae'r amcan hwn yn fuddiol i bob nodwedd warchodedig ac yn benodol, rhywedd, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd.

| Sut byddwn yn gwneud hyn | Canlyniadau disgwyliedig | Sut y byddwn yn gwybod pa gynnydd yr ydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| Lleihau bylchau cyflog rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd, gan gynnwys trwy weithredu cadarnhaol, fel y caniateir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. | Gostyngiadau mewn bylchau cyflog rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.<br><br>Gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyrru'r bylchau cyflog rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd ym Mro Morgannwg fel y gallwn weithio ar wella hyn. | Data cyflogaeth – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig<br><br>Dangosfyrddau amrywiaeth |
| Mynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad pobl hŷn at brentisiaethau pob oed o ansawdd uchel. | Gweithle sy'n dda i bobl hŷn / Bro Oed-Gyfeillgar | Data cyflogaeth – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig<br><br>Dangosfyrddau amrywiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Mynd i'r afael â bylchau data ansoddol a meintiol ar gyfer nodweddion gwarchodedig unigol a chroestoriadol, gan ddadgyfuno data ar draws meysydd polisi adnoddau dynol. | Cryfhau polisi a phenderfyniadau ar sail tystiolaeth. | Data cyflogaeth – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig<br><br>Dangosfyrddau amrywiaeth |
| Parhau i adolygu'r broses asesu effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yn systematig effaith ei waith ar bobl â nodweddion gwarchodedig sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol neu sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. | Mae’r broses asesu effaith ar gydraddoldeb wedi'i hymgorffori yn systemau'r Cyngor o weithio.<br><br>Mae'r Cyngor yn ystyried effaith ei waith ar bobl â nodweddion gwarchodedig. | Nifer yr Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb<br><br>Ansawdd asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb |
| Parhau i adolygu dulliau ymgysylltu ac ymgynghori i sicrhau bod holl leisiau Bro Morgannwg yn cael eu clywed a'u barn yn cael ei hystyried. | Targedau ymgysylltu ac ymgynghori ac yn ystyried barn pobl â nodweddion gwarchodedig. | Data arolygon – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Nifer y digwyddiadau ymgysylltu sy'n targedu grwpiau gwarchodedig. |
| Defnyddio cynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru, meincnodi gwybodaeth ac arfer da i lywio gwelliannau i gynlluniau gweithredu cydraddoldeb gan gynnwys ar gyfer hil, | Cynlluniau gweithredu ar waith ar gyfer hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. | Monitro cynlluniau gweithredu<br><br>Arolygon staff – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |

| | | |
|---|---|---|
| anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. | | |
| Adolygu'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb i sicrhau bod deialog effeithiol ar fusnes y Cyngor â grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli buddiannau pobl â nodweddion gwarchodedig. | Adborth rheolaidd ar gynnydd gyda'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a strategaethau a pholisïau allweddol eraill gan grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli buddiannau pobl â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Mae dulliau ymgysylltu yn unol â'r Strategaeth Cyfranogiad. | Nifer y cyfarfodydd.<br><br>Mae adborth yn cynrychioli amrywiaeth eang o bobl â nodweddion gwarchodedig. |
| Dod â grwpiau yn y Fro ynghyd sy'n gweithio tuag at degwch a chynhwysiant. | Man wedi'i greu ar gyfer grwpiau i adeiladu cymunedau gwell. | Nifer y cymunedau sy'n elwa o gydweithio. |
| Parhau i gefnogi'r rhwydweithiau staff i ddylanwadu ar weithle mwy cynhwysol, gan gynnwys gweithio ar y cyd i bontio materion croestoriadol. | Gweithle mwy cynhwysol.<br><br>Llais cryfach i staff sydd â nodweddion gwarchodedig. | Nifer y rhwydweithiau staff sydd ar waith.<br><br>Meincnodi fel Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall a Trailblazer Race Equality First. |
| Sicrhau bod y Strategaeth Pobl yn cael ei datblygu a'i gweithredu gydag egwyddor arweiniol o gydraddoldeb a chynhwysiant. | Diwylliant cynhwysol<br><br>Amrywiaeth y gweithlu<br><br>Gwasanaethau ymatebol<br><br>Profiad gwell i weithwyr | Data cyflogaeth – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Dangosfyrddau cydraddoldeb. |

| | | |
|---|---|---|
| | Perfformiad uchel | Arolygon staff – data wedi'i ddadgyfuno gan nodweddion gwarchodedig. |
| Meithrin gweithlu talentog, amrywiol, sy'n perfformio'n uchel, a all ddarparu gwasanaethau eithriadol i'r gymuned drwy'r Strategaeth Recriwtio a Chadw. | Denu ystod amrywiol o ymgeiswyr o ansawdd uchel, gan leihau'r swyddi y mae'n cymryd amser i'w llenwi.<br><br>Sicrhau bod gennym y bobl gywir yn y rolau cywir, yn barod i gwrdd â heriau'r dyfodol.<br><br>Creu diwylliant o welliant parhaus lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu twf personol a phroffesiynol.<br><br>Cynyddu bodlonrwydd ac ymgysylltiad gweithwyr, lleihau trosiant a gwella cynhyrchiant. | Data cyflogaeth – data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig.<br><br>Dangosfyrddau cydraddoldeb.<br><br>Arolygon staff – data wedi'i ddadgyfuno gan nodweddion gwarchodedig. |
| Cadarnhau a oes gwahaniaeth yn y cyfleoedd cyflogaeth i bobl sydd ag anableddau corfforol a meddyliol, gan gynnwys y rheini sy'n niwrowahanol. | Mae mwy o bobl ag anableddau yn llwyddo i gael swyddi gyda'r Cyngor. | Data cyflogaeth - data wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd warchodedig. |
| Parhau i adolygu sut y gellir gwneud y gweithle yn fwy cynhwysol i bobl anabl. | | Arolygon staff – data wedi'i ddadgyfuno gan nodweddion gwarchodedig. |

| | | |
|---|---|---|
| Parhau i weithio tuag at gynwysoldeb gwell ar gyfer staff mwyafrif byd-eang a lleiafrifoedd ethnig, gan fesur cynnydd trwy broses Trailblazer, Race Equality Matters. | | Adborth Trailblazer, Race Equality Matters |
| Parhau i ddarparu cymorth a datblygu perthnasoedd cydweithredol â rhwydweithiau staff presennol a newydd, gan gynnwys GLAM, Amrywiol ac Abl. | | Adborth Trailblazer, Race Equality Matters.<br><br>Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall / adborth Arolygon Staff.<br><br>Adborth gan rwydweithiau staff - GLAM, Amrywiol ac Abl. |

## Monitro Cynnydd a Chyhoeddi Canlyniadau

Byddwn yn parhau i edrych ar y cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn adrodd ar hyn bob blwyddyn i Uwch Dîm Arwain y Cyngor, Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb, a'r Cabinet yn ein Hadroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol ar ein gwefan.

## I gael rhagor o wybodaeth

### Ewch i'n gwefan

[www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)

### Cyfryngau Cymdeithasol

Sicrhewch fod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf o ran newyddion a digwyddiadau gan Gyngor Bro Morgannwg.

Dilynwch @CBroMorgannwg ar Twitter neu hoffwch Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.

# Tystiolaeth

## Amcan Lles Corfforaethol 1:

## Creu lleoedd gwych i fyw a gweithio ynddynt

## Amcan Cydraddoldeb Strategol 1:

## Creu lleoedd tecach i fyw a gweithio ynddynt

## Y dystiolaeth sy'n cefnogi hyn

### A yw Cymru'n Decach? Tystiolaeth 2023 – Canfyddiadau allweddol

- Yn 2021/22, roedd 57.2% o bobl 16 oed ac yn hŷn yng Nghymru mewn cyflogaeth. Fodd bynnag, mae twf cyflogaeth cyn y pandemig wedi aros yn ei unfan ers ein hadolygiad statudol diwethaf, gyda chynnydd mewn cyflogaeth yn gostwng.

- Mae'r cyfraddau diweithdra uchaf ymhlith y grŵp oedran 16–24 oed (11.4% yn 2019/20), ond cafwyd gostyngiad sylweddol i'r gyfradd ddiweithdra rhwng 2010/11 a 2019/20. Nid oes grŵp oedran arall sy'n fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr ac yn ennill llai.

- Ymhlith oedolion dan 65 oed (ac eithrio myfyrwyr), y rheini sy'n 55–64 oed oedd â'r cyfraddau cyflogaeth isaf (58.4%) a'r cyfraddau uchaf o anweithgarwch economaidd (40.1%) yn 2019/20. Cafwyd cynnydd yng nghyfraddau cyflogaeth y grŵp oedran hwn rhwng 2010/11 a 2019/20, er na welsant unrhyw gynnydd mewn enillion fesul awr.

- Cynyddodd cyfradd cyflogaeth y rheini sy'n 65 ac yn hŷn (y grwpiau oedran 65–74 a thros 75 oed) rhwng 2010/11 a 2019/20. Dim ond pobl ifanc 16–24 oed oedd yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr na'r grŵp oedran 65–74, gan fod 11.7% o weithwyr 65–74 oed mewn gwaith ansicr.

- Mae oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, gostyngodd y bwlch cyflogaeth anabledd o 39.6 pwynt canran yn 2013/14 i 36.2 pwynt canran yn 2019/20. Er bod bylchau cyflogaeth yn gwella, mae bylchau enillion yn gwaethygu, wrth i weithwyr anabl ennill 15.1% yn llai yn 2019/20, o'i gymharu ag 8.0% yn llai yn 2013/14.

- Mae pobl draws yng Nghymru yn ofni wynebu gwahaniaethu yn y gweithle. Canfu arolwg yn 2018 fod bron hanner yr ymatebwyr traws wedi cuddio eu hunaniaeth rhywedd yn y gwaith a bod bron traean wedi cael sylwadau negyddol gan gyd-weithwyr.

- Yng Nghymru, mae gweithwyr lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr (8.0%) na gweithwyr Gwyn Prydeinig (14.2%) yn 2019/20. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn mewn cyflogaeth ansicr wedi lleihau dros amser. Roedd gweithwyr o leiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi â chyflogau isel.

- Mae grwpiau lleiafrifol ethnig yng Nghymru yn fwy tebygol o adrodd am brofiadau o wahaniaethu a bwlio yn y gweithle.

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn wynebu gwahaniaethu difrifol a rhagfarn.

- Mae lleiafrifoedd crefyddol yn llai tebygol o gael eu cyflogi na'r rheini heb unrhyw ymlyniad crefyddol, gyda chyfradd cyflogaeth o 52.2% o'i gymharu â 65.9% ar gyfer y grŵp digrefydd.

- Mae Cristnogion yn fwyaf tebygol o fyw mewn cartrefi perchen-feddianwyr, wrth i Fwslimiaid fod fwyaf tebygol o fyw mewn tai rhent preifat neu dai cymdeithasol. Mae Mwslimiaid hefyd yn profi'r gyfradd uchaf o orlenwi, gan fod 14.2% o aelwydydd Mwslimaidd yn orlawn yn 2021.

- Mae'r duedd i fwy o fenywod na dynion fod â chymwysterau ar ôl oed gorfodol ar lefel 4 neu uwch yn parhau, gan fod 61.3% o fyfyrwyr addysg uwch a 55.8% o ddechreuwyr prentisiaethau yn fenywod yn 2021/21. Fodd bynnag, mae data prentisiaeth yn dangos bod gwahaniaeth amlwg rhwng y rhywiau o ran dewis pynciau.

- Mae'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod yn parhau, gan fod menywod ar gyfartaledd yn cael eu talu 14.1% yn llai na dynion yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn wedi lleihau ychydig rhwng 2010 a 2019. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn amrywio'n fawr ar draws rhanbarthau yng Nghymru.

- Mae anghenion gofal plant a chyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i gydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth ac addysg.

- Mae cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol ac fel prif weithredwyr mewn penodiadau cyhoeddus wedi codi.

- Mae oedolion hoyw a lesbiaidd yn fwy tebygol o gael eu cyflogi (67%) nag oedolion sy'n nodi eu bod yn heterorywiol (55%), deurywiol (52%) neu unrhyw gyfeiriadedd rhywiol arall (49%).

- Mae gweithwyr heterorywiol yn fwy tebygol o weithio yn y diwydiannau adeiladu, gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth, ynni a dŵr na'r holl grwpiau cyfeiriadedd rhywiol eraill.

- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru mewn perygl o ddioddef amrywiaeth o ymddygiadau gwahaniaethol neu fwlio tra yn y gwaith ac mewn addysg. Maent mewn mwy o berygl o droseddau casineb oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

**Tystiolaeth, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – Canfyddiadau allweddol**

- Nid oedd digon o ddata o'r rhan fwyaf o nodweddion gwarchodedig (anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil,

crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol) i gael unrhyw ganfyddiadau gwerthfawr yn seiliedig ar y rhain.

- Roedd 19.3% yn bryderus iawn a 28.4% yn weddol bryderus am gyfleoedd cyflogaeth yn y Fro.

- Roedd 26.4% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol i helpu i ennill sgiliau newydd.

- Roedd 6.9% o'r ymatebwyr yn anfodlon iawn â Bro Morgannwg fel lle i fyw ynddo, ac roedd 14.2% yn weddol anfodlon. Mae hyn yn cymharu â 17.8% a oedd yn fodlon iawn a 41.8% oedd yn weddol fodlon.

- Nid oedd 61% o'r trigolion yn gwybod beth oedd y Cyngor yn ei wneud i gefnogi pobl oedd am wella eu sgiliau a chael gwaith, roedd 18.4% o’r farn bod y Cyngor yn gwneud digon.

- Mae gan 33.6% o breswylwyr gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol a barhaodd dros 12 mis, o'r rhain roedd gan 76% lai o allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

- Roedd 55.3% o'r preswylwyr yn teimlo eu bod yn gallu prynu neu rentu cartref o ansawdd da.

- Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent wedi dewis dull o drafnidiaeth gyhoeddus (bws neu drên) hefyd, "Beth fyddai'n eich annog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach?", a oedd yn gwestiwn testun agored. Rhai o'r themâu a roddwyd gan ymatebwyr i'r cwestiynau oedd:

    - Gwasanaethau mwy dibynadwy
    - Bysus a threnau mwy rheolaidd
    - Mwy o lwybrau bysus
    - Gwasanaethau bysus a threnau rhatach

## Amcan Lles Corfforaethol 2:

## Parchu a dathlu'r amgylchedd

## Amcan Cydraddoldeb Strategol 2:

## Creu mynediad tecach i'r amgylchedd lleol

## Y dystiolaeth sy'n cefnogi hyn.

### Race Equality Foundation

Bydd addasu i hinsawdd sy'n newid wrth bontio i allyriadau Sero Net erbyn 2050 yn effeithio ar bobl a grwpiau mewn ffyrdd cymhleth. Ar lefel genedlaethol, mae tystiolaeth yn awgrymu mai lleiafrifoedd a **phobl hŷn** sydd fwyaf mewn perygl o effeithiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys o ddod i gysylltiad â llygredd aer, gorboethi a llifogydd.

Mae newid hinsawdd yn broblem sy'n effeithio ar bawb, ond mae anghydraddoldebau mewn cymdeithas yn golygu na effeithir ar bawb yn yr un ffordd.

Effeithir ar boblogaethau lleiafrifol yn anghymesur, yn enwedig **menywod fel prif ofalwyr a darparwyr tanwydd a bwyd**.

Mae adroddiad newydd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU yn datgelu y bydd effeithiau iechyd newid hinsawdd yn cael eu teimlo'n anghymesur gan **gymunedau difreintiedig**, gan **ddwysáu'r anghydraddoldebau iechyd presennol** yn sylweddol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos mai **grwpiau sy'n agored i niwed** – gan gynnwys **pobl ag anableddau**, **poblogaethau digartref** a'r rheini **mewn ardaloedd difreintiedig** – fydd yn dwyn baich tywydd eithafol fel tywydd poeth a llifogydd, sy'n dod yn fwy cyffredin oherwydd allyriadau nwyon tŷ gwydr. **Mae hyn yn chwyddo gwahaniaethau presennol, lle mae gan y rheini mewn tlodi ddisgwyliad oes is eisoes**.

Mae arbenigwyr, fel Syr Michael Marmot, yn galw ar frys ar lunwyr polisi i gymryd camau pendant mewn perthynas â'r hinsawdd, gydag ecwiti yn flaenllaw. **Mae'n rhaid i**

**fesurau sy'n ymwneud â thai, trafnidiaeth, gwaith a bwyd flaenoriaethu'r gwaith o gefnogi grwpiau difreintiedig** drwy'r cyfnod pontio i gynaliadwyedd. Gallai methu â gwneud hynny ymwreiddio canlyniadau iechyd anghyfartal ymhellach.

Mae'r adroddiad yn rhagweld **effeithiau** difrifol **rhwng cenedlaethau**, gyda **phlant heddiw** yn wynebu tywydd cynyddol eithafol hyd at ymddeoliad. Mae gwyddonwyr yn pwysleisio'r angen i dorri allyriadau a hybu ymdrechion addasu fel y gall systemau iechyd sy'n cael eu gorlwytho reoli risgiau cynyddol.

Mae caniatáu i newid hinsawdd barhau, heb ei wirio, yn golygu derbyn bod anghydraddoldebau iechyd yn gwaethygu'n ddifrifol. Mae gweithredu ar frys mewn perthynas â'r hinsawdd, gydag ecwiti yn ganolog i benderfyniadau polisi, yn hanfodol i atal y canlyniad hwn. Mae Race Equality Foundation yn gweithio gydag eraill i wneud newid, ac yn erfyn ar arweinwyr i dalu sylw i ragamcanion pryderus yr adroddiad, a diogelu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed trwy greu cynlluniau hinsawdd nad ydynt yn gadael neb ar ôl.

## Amcan Lles Corfforaethol 3:

## Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb

## Amcan Cydraddoldeb Strategol 3:

## Rhoi cyfle tecach i bawb gael dechrau da mewn bywyd

## Y dystiolaeth sy'n cefnogi hyn.

### A yw Cymru'n Decach? Tystiolaeth 2023 – Canfyddiadau allweddol

- Cyflawnodd cyfran lai o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim 5 TGAU gradd A*-C (52.5%) yn 2020/21 o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn gymwys (79.8%). Nid yw'r bwlch cyrhaeddiad wedi newid ers yr adroddiad diwethaf, ac mae'n parhau i fod yn uwch na'r bwlch yn Lloegr.

- Yng Nghymru mae cyfraddau tlodi oedolion a phlant wedi bod yn amrywiol. Mae'n rhy fuan i'r data ddangos effaith lawn y pandemig a'r argyfwng costau byw ond, yn 2020–2022, roedd dros un o bob pump o bobl (oedolion a phlant), a thros un o bob pedwar o blant, yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

- Mae cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi bod yn gostwng ers 2010, ond mae'r dirywiad hwn wedi arafu ers 2017.

- Mae lefelau tlodi yn parhau i fod yn uchel ymhlith pobl ifanc 16–24 oed, gan fod 28% o bobl yn y grŵp oedran hwn mewn tlodi yn 2020-2022, yng Nghymru.

- Yn 2021/22, ar gyfartaledd dim ond 10 o blant 10-17 oed o Gymru oedd yn y ddalfa. Dyma'r nifer isaf ar gofnod.

- Mae'r bwlch cyrhaeddiad addysg ar lefel cyfnod sylfaen rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl, wedi ehangu. Yn 2018/19, cyflawnodd 42.5% o ddisgyblion ag anabledd / AAA ganlyniadau cyfnod sylfaen o'i gymharu â 92% o ddisgyblion heb anabledd / AAA.

- Yn 2021/22, dywedodd 62% o blant ysgol a nododd nad oeddent yn fachgen nac yn ferch iddynt gael eu bwlio yn ystod y misoedd diwethaf, o'i gymharu â 28% o ferched a 34% o fechgyn. Dywedodd y rheini a nododd nad oeddent yn fachgen nac yn ferch bod ganddynt iechyd meddwl gwaeth.

- Yn y cyfnod sylfaen addysg gynradd, mae amrywiaeth o wahaniaethau rhwng cyrhaeddiad gwahanol grwpiau ethnig. Mae'r gwahaniaeth mwyaf nodedig ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRT), sydd â chyfraddau cyrhaeddiad sylweddol is na'r holl grwpiau ethnig eraill.

- Ar gyfer y rheini sy'n gadael ysgol, mae data cyfanredol yn dangos cyrhaeddiad uwch ymhlith disgyblion lleiafrifoedd ethnig o'i gymharu â Gwyn Prydeinig. Fodd bynnag, gallai'r diffyg dadgyfuno a manylion yn y dystiolaeth bresennol fod yn cuddio gwahaniaethau tebyg i'r rheini a geir yn y Cyfnod Sylfaen.

- Mae gan ferched gyfraddau cyrhaeddiad uwch o hyd na bechgyn ar bob lefel o addysg orfodol.

**Tystiolaeth, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – Canfyddiadau allweddol**

- Mae llawer o dystiolaeth, a allai fod wedi bod yn yr adran hon, wedi'i chynnwys yn Amcan Cynllun Corfforaethol 4. Nid oedd digon o ddata o'r rhan fwyaf o nodweddion gwarchodedig (anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol) i gael unrhyw ganfyddiadau gwerthfawr yn seiliedig ar y rhain.

- Roedd 34.7% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad i ysgolion a meithrinfeydd o ansawdd da yn eu hardal.

- Roedd 26.4% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol yn y Fro.

- Roedd ymatebwyr eisiau mwy o gyfleusterau meddygol fel ysbytai a deintyddion.

## Amcan Lles Corfforaethol 4:

## Cefnogi ac amddiffyn y rheini sydd ein hangen

## Amcan Cydraddoldeb Strategol 4:

## Cefnogi ac amddiffyn y rheini sy'n wynebu'r anfantais fwyaf

## Y dystiolaeth sy'n cefnogi hyn.

### A yw Cymru'n Decach? Tystiolaeth 2023 – Canfyddiadau allweddol

- Yng Nghymru mae cyfraddau tlodi oedolion a phlant wedi bod yn amrywiol. Mae'n rhy fuan i'r data ddangos effaith lawn y pandemig a'r argyfwng costau byw ond, yn 2020–2022, roedd dros un o bob pump o bobl (oedolion a phlant), a thros un o bob pedwar o blant, yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

- Rhwng 2020 a 2022, bu bron i nifer y teuluoedd mewn llety dros dro ddyblu yng Nghymru, o 2,324 i 4,465 o aelwydydd.

- Mae amcangyfrifon disgwyliad oes adeg geni yng Nghymru yn awgrymu bod gwelliannau mewn disgwyliad oes wedi bod yn arafu, gydag awgrymiadau bod marwolaethau COVID-19 wedi cyfrannu at ostyngiad mewn disgwyliad oes yn y ffigurau diweddaraf. Mae disgwyliad oes cyfartalog yng Nghymru yn is na Lloegr ond yn uwch na'r Alban.

- Mae tua 8,200 o ofalwyr ifanc yng Nghymru, sy'n fwy tebygol nag eraill o'u hoedran o fyw mewn ardaloedd difreintiedig a phrofi tarfu ar eu haddysg.

- Roedd 7,080 o blant sy’n derbyn gofal (PDG) gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2021. Mae niferoedd PDG wedi bod yn cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf o'i gymharu â Lloegr a'r Alban, tan ostyngiad diweddar.

- Cafodd y pandemig effaith negyddol ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc wrth i gyfran uwch o ddisgyblion nodi symptomau uchel iawn o iechyd meddwl gwael

yn 2021/22 (24%) o'i gymharu â 2019/20 (19%). Cymru sydd â'r galw mwyaf am Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol i blant a phobl ifanc yn y DU.

- Er ei fod yn amrywio ers 2010, gostyngodd nifer yr achosion o hunanladdiad ymhlith pobl ifanc 15-24 oed o 2016 a 2019, o 11.7 i 7.5 marwolaeth fesul 100,000. Mewn cymhariaeth, cynyddodd cyfraddau hunanladdiad yn Lloegr a'r Alban.

- Cododd cyfraddau tlodi ymhlith pobl 65–74 oed, o 10.4% yn 2010/11 i 18.0% yn 2019/20. Yn 2021, roedd 41% o'r holl aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd â phenteulu oedd yn 65 oed neu'n hŷn.

- Mae pobl dros 65 oed yn fwy tebygol o adrodd bod gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth wedi eu helpu i gael ansawdd bywyd uwch (85.7 ar gyfer 65–74 oed; 86.7% ar gyfer pobl dros 75 oed) o'i gymharu â phobl 45–54 oed (66.4%).

- Mae data ar gyfer 2018–2020 yn dangos y gall menywod sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru ddisgwyl 53.3 mlynedd o iechyd da a gall dynion ddisgwyl 54.2 mlynedd. Wrth gymharu'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf, mae gwahaniaeth o 16.9 mlynedd i fenywod a gwahaniaeth o 13.4 mlynedd i ddynion.

- Mae ymchwil yn awgrymu bod gan 18% o anheddau yng Nghymru o leiaf un perygl categori 1, gan beryglu iechyd pobl hŷn.

- Y grŵp oedran sydd â'r ganran uchaf o ofalwyr di-dâl yw pobl 55–59 oed (18.5%), ond y grŵp oedran sydd â'r ganran uchaf sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos yw 80–84 (7%).

- Mae oedolion hŷn mewn mwy o berygl o allgau ac anfantais ddigidol. Mae'r rheini sy'n 65 oed neu'n hŷn yn dal i fod yn llawer llai tebygol, na grwpiau oedran iau, o gael mynediad at y rhyngrwyd gartref. At hynny, dim ond 24% o'r rheini

dros 70 oed sy'n debygol o ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi eu hiechyd o'i gymharu ag 87% o bobl 16-19 oed.

- Mae pobl anabl yn llai tebygol o fod yn berchnogion tai na phobl nad ydynt yn anabl ac maent yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi ac amddifadedd materol difrifol. Fodd bynnag, bu gostyngiad sylweddol yng nghyfran y bobl anabl sy'n byw mewn amddifadedd materol difrifol, o 40.5% yn 2015/16, i 24.3% yn 2019/20.

- Mae oedolion anabl yn nodi canlyniadau iechyd meddwl gwaeth nag oedolion nad ydynt yn anabl, gan fod 34.3% o bobl anabl wedi nodi bod ganddynt iechyd meddwl gwael, o'i gymharu â 15.4% o bobl nad ydynt yn anabl yn 2018/19.

- Mae pobl anabl wedi cael eu gorgynrychioli'n sylweddol mewn marwolaethau o COVID-19. Roedd pobl ag anabledd dysgu dair i wyth gwaith yn fwy tebygol o farw o COVID-19 na'r boblogaeth ehangach.

- Mae cyfran y bobl anabl sy'n adrodd eu bod wedi profi cam-drin domestig yn ystod y 12 mis diwethaf oddeutu tair gwaith yn fwy na'r hyn a adroddwyd gan bobl nad ydynt yn anabl. Mae pobl anabl hefyd yn llai tebygol o fod â hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

- Mae pobl draws hŷn yng Nghymru yn dweud nad oes gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yr wybodaeth sydd ei hangen i ofalu amdanynt. Mae gan bobl draws bryderon hefyd na fyddant efallai'n derbyn gofal sy'n sensitif i'w hunaniaeth rhywedd, yn enwedig mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.

- Mae lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, gan fod 40% o aelwydydd â lleiafrifoedd ethnig yn benteulu (gan gynnwys lleiafrifoedd gwyn) yn byw mewn tlodi, o'i gymharu â 22% o aelwydydd â phenteulu gwyn. Mae rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o brofi digartrefedd a gorlenwi ac maent yn llai tebygol o fod yn berchnogion tai.

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn wynebu gwahaniaethu difrifol a rhagfarn.

- Cynyddodd cyfraddau tlodi mewn aelwydydd â phenteulu Cristnogol o 15.0% yn 2011/12, i 20.2% yn 2018/19, sydd wedi lleihau'r bwlch tlodi yn y grŵp nad ydynt yn grefyddol.

- Mae Cristnogion yn fwyaf tebygol o fyw mewn cartrefi perchen-feddianwyr, wrth i Fwslimiaid fod fwyaf tebygol o fyw mewn tai rhent preifat neu dai cymdeithasol. Mae Mwslimiaid hefyd yn profi'r gyfradd uchaf o orlenwi, gan fod 14.2% o aelwydydd Mwslimaidd yn orlawn yn 2021.

- Bu gostyngiad ym mhob grŵp crefyddol a grwpiau nad ydynt yn grefyddol a adroddodd am iechyd da yng Nghymru rhwng 2016 a 2019, gyda mwy o ddirywiad i leiafrifoedd crefyddol (-6.7 pwynt canran) heblaw am y rheini hynny nad ydynt yn grefyddol (-3.4 pwynt canran) a Christnogion (-2.1 pwynt canran).

- Mae nifer y troseddau ar sail hiliol neu grefyddol a gofnodwyd gan yr heddlu wedi cynyddu, ond mae cyfran y troseddau sy'n arwain at gyhuddiad wedi gostwng.

- Mae 89.1% o aelwydydd un rhiant yng Nghymru â phenteulu benywaidd. Aelwydydd sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi yw aelwydydd un rhiant (38%).

- Parhaodd menywod i adrodd am ganlyniadau iechyd meddwl gwaeth (22.6%) na dynion (20.3%) yn 2018/19. Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn byw gydag anabledd neu salwch gydol oes, er eu bod yn byw'n hwy.

- Mae menywod yn dal yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl (12.0%) o'i gymharu â dynion (9.0%) yn 2021.

- Mae data'r cyfrifiad ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael am y tro cyntaf. Yn 2021, nododd tua 77,000 o bobl dros 16 oed yng Nghymru eu bod yn hoyw, lesbiaidd,

deurywiol neu gyfeiriadedd rhywiol arall. Mae hynny'n 3.0% o holl boblogaeth Cymru.

- Mae grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn profi iechyd corfforol a meddyliol gwaeth nag oedolion heterorywiol. Mae'r bwlch mewn canlyniadau iechyd corfforol wedi gwella dros amser, ond mae'r bwlch mewn canlyniadau iechyd meddwl wedi aros yn ei unfan ers cyn pandemig COVID-19. Yn 2018/19, nododd 31.8% o ymatebwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol iechyd meddwl gwael, o'i gymharu â 20.9% o oedolion heterorywiol.

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod iechyd meddwl lleiafrifoedd rhywiol wedi gwaethygu yn ystod y pandemig, er bod angen mwy o ymchwil i ddeall i ba raddau y gallai'r bwlch fod wedi lledu gyda phobl heterorywiol.

**Tystiolaeth, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – Canfyddiadau allweddol**

- Nid oedd digon o ddata o'r rhan fwyaf o nodweddion gwarchodedig (anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol) i gael unrhyw ganfyddiadau gwerthfawr yn seiliedig ar y rhain.

- Mae 29.8% o'r ymatebwyr yn cael prydau llai na'r arfer oherwydd yr argyfwng costau byw, nid yw 62.8% wedi rhoi'r gwres ymlaen yn fwriadol.

- Mae 83.1% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel bod ar eu pennau eu hunain yn eu cartref eu hunain; dywedodd 39.6% o breswylwyr eu bod yn teimlo'n weddol ddiogel, a dywedodd 36.3% eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn yn cerdded o gwmpas eu hardal leol. Roedd mwy o ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel na theimlo'n anniogel iawn neu'n weddol anniogel wrth deithio yn eu hardal leol; roedd 44.5% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel wrth deithio ar fws, 53.9% wrth deithio ar y trên, 82.6% wrth deithio mewn car, ac 16.3% wrth deithio ar drafnidiaeth gymunedol. Ardaloedd eraill yr oeddent yn teimlo'n anniogel ynddynt: • Gyda'r hwyr, yn bennaf oherwydd diffyg goleuadau stryd; • Y Barri, yn enwedig gyda'r hwyr; • Llwybrau troed / llwybrau beicio peryglus;

• Llawer o leoedd oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol; a • Ffyrdd, fel gyrrwr a theithiwr.

- Nid yw'r rhan fwyaf o bobl, (50.5%) o'r ymatebwyr, yn credu bod gan eu hardal leol y gwasanaethau a'r cyfleusterau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion. Mae 35.5% o'r ymatebwyr yn credu bod gan eu hardal leol y gwasanaethau a'r cyfleusterau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion ac nid yw 13.9% o'r ymatebwyr yn gwybod.

- Roedd 36.8% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad hawdd at wasanaethau gofal a gofal iechyd yn y Fro. Roedd 34.1% yn teimlo eu bod yn gallu dod o hyd i bethau i'w cadw'n heini ac yn iach am bris y gallent ei fforddio.

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn bryderus iawn neu'n weddol bryderus am yr argyfwng costau byw (78.0%), gwasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc (60.6%) a gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn (73.1%).

- Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod beth mae'r Cyngor yn ei wneud yn ystod yr argyfwng costau byw (52.4%), darparu gwasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc (51.7%) a darparu gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn (51.5%).

- Disgrifiodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu hiechyd corfforol (67.3%) ac iechyd meddwl (70.3%) fel da iawn neu'n weddol dda. Er bod 16.5% o'r ymatebwyr yn dweud bod eu hiechyd corfforol yn wael iawn neu'n eithaf gwael, dywedodd 13.2% o'r ymatebwyr fod eu hiechyd meddwl yn wael iawn neu'n eithaf gwael.

- Byddai 85.9% o'r ymatebwyr yn defnyddio gwefan y Cyngor i ddod o hyd i wybodaeth am wasanaeth y Cyngor pe bai angen. Dywedodd 28.7% y byddent yn ffonio'r Cyngor, dywedodd 25% y byddent yn anfon e-bost i'r Cyngor, dywedodd 20.7% y byddent yn llenwi ffurflen gyswllt ar-lein a dywedodd 16.7% y byddent yn ymweld â gwefannau cyfryngau cymdeithasol a blogiau. Dywedodd 15.9% arall y byddent yn cysylltu â'u cynghorydd lleol a dywedodd 3.4% y byddent yn defnyddio dulliau eraill, gan gynnwys holi yn y gwaith, chwilio am y mater yn Google, a gofyn

yn y llyfrgell. Dywedodd 3.8% o'r ymatebwyr nad ydynt yn gwybod sut i ddod o hyd i wybodaeth am wasanaeth y Cyngor.

## Amcan Lles Corfforaethol 5:

## Bod y Cyngor gorau y gallwn fod

## Amcan Cydraddoldeb Strategol 5:

## Rhoi tegwch wrth wraidd gwasanaethau a chyflogaeth y Cyngor

## Y dystiolaeth sy'n cefnogi hyn.

### A yw Cymru'n Decach? Tystiolaeth 2023 – Canfyddiadau allweddol

- Yn 2021/22, roedd 57.2% o bobl 16 oed ac yn hŷn yng Nghymru mewn cyflogaeth. Fodd bynnag, mae twf cyflogaeth cyn y pandemig wedi aros yn ei unfan ers ein hadolygiad statudol diwethaf, gyda chynnydd mewn cyflogaeth yn gostwng.

- Mae'r cyfraddau diweithdra uchaf ymhlith y grŵp oedran 16–24 oed (11.4% yn 2019/20), ond cafwyd gostyngiad sylweddol i’r gyfradd ddiweithdra rhwng 2010/11 a 2019/20. Nid oes grŵp oedran arall sy'n fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr ac yn ennill llai.

- Ymhlith oedolion dan 65 oed (ac eithrio myfyrwyr), y rheini 55–64 oed oedd â'r cyfraddau cyflogaeth isaf (58.4%) a'r cyfraddau uchaf o anweithgarwch economaidd (40.1%) yn 2019/20. Cafwyd cynnydd yng nghyfraddau cyflogaeth y grŵp oedran hwn rhwng 2010/11 a 2019/20, er na welsant unrhyw gynnydd mewn enillion fesul awr.

- Cynyddodd cyfradd cyflogaeth y rheini sy’n 65 ac yn hŷn (y grwpiau oedran 65–74 a thros 75 oed) rhwng 2010/11 a 2019/20. Dim ond pobl ifanc 16–24 oed oedd yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr na'r grŵp oedran 65–74, gan fod 11.7% o weithwyr 65–74 oed mewn gwaith ansicr.

- Mae oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, gostyngodd y bwlch cyflogaeth anabledd o 39.6 pwynt canran yn 2013/14 i 36.2 pwynt canran yn 2019/20. Er bod bylchau cyflogaeth yn gwella,

mae bylchau enillion yn gwaethygu, wrth i weithwyr anabl ennill 15.1% yn llai yn 2019/20, o'i gymharu ag 8.0% yn llai yn 2013/14.

- Mae pobl draws yng Nghymru yn ofni wynebu gwahaniaethu yn y gweithle. Canfu arolwg yn 2018 fod bron hanner yr ymatebwyr traws wedi cuddio eu hunaniaeth rhywedd yn y gwaith a bod bron traean wedi cael sylwadau negyddol gan gyd-weithwyr.

- Yng Nghymru, mae gweithwyr lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr (8.0%) na gweithwyr Gwyn Prydeinig (14.2%) yn 2019/20. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn mewn cyflogaeth ansicr wedi lleihau dros amser. Roedd gweithwyr o leiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi â chyflogau isel.

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn wynebu gwahaniaethu difrifol a rhagfarn.

- Mae lleiafrifoedd crefyddol yn llai tebygol o gael eu cyflogi na'r rheini heb unrhyw ymlyniad crefyddol, gyda chyfradd cyflogaeth o 52.2% o'i gymharu â 65.9% ar gyfer y grŵp digrefydd.

- Mae'r duedd i fwy o fenywod na dynion fod â chymwysterau ar ôl oed gorfodol ar lefel 4 neu uwch yn parhau, gan fod 61.3% o fyfyrwyr addysg uwch a 55.8% o ddechreuwyr prentisiaethau yn fenywod yn 2021/21. Fodd bynnag, mae data prentisiaeth yn dangos bod gwahaniaeth amlwg rhwng y rhywiau o ran dewis pynciau.

- Mae'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod yn parhau, gan fod menywod ar gyfartaledd yn cael eu talu 14.1% yn llai na dynion yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn wedi lleihau ychydig rhwng 2010 a 2019. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn amrywio'n fawr ar draws rhanbarthau yng Nghymru.

- Mae anghenion gofal plant a chyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i gydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth ac addysg.

- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru mewn perygl o ddioddef amrywiaeth o ymddygiadau gwahaniaethol neu fwlio tra yn y gwaith ac mewn addysg. Maent mewn mwy o berygl o droseddau casineb oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

- Gostyngodd cyfran y trigolion o Gymru tair oed neu’n hŷn a oedd ag unrhyw sgiliau yn y Gymraeg ychydig rhwng 2011 a 2021, yn ogystal â'r gyfran a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. (Mae nifer y trigolion o Gymru a anwyd y tu allan i'r DU wedi cynyddu 28.3% ers 2011).

- Ar hyn o bryd, prin yw'r ymchwil sy'n canolbwyntio ar bobl draws yng Nghymru. Fodd bynnag, erbyn hyn mae cwestiynau hunaniaeth rhywedd yn arolygon Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (RhYIY) a Chyfrifiad 2021.

- Mae grwpiau lleiafrifol ethnig yng Nghymru yn fwy tebygol o adrodd am brofiadau o wahaniaethu a bwlio yn y gweithle.

- Mae cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol ac fel prif weithredwyr mewn penodiadau cyhoeddus wedi codi.

- Mae oedolion hoyw a lesbiaidd yn fwy tebygol o gael eu cyflogi (67%) nag oedolion sy'n nodi eu bod yn heterorywiol (55%), deurywiol (52%) neu unrhyw gyfeiriadedd rhywiol arall (49%).

- Mae gweithwyr heterorywiol yn fwy tebygol o weithio yn y diwydiannau adeiladu, gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth, ynni a dŵr na'r holl grwpiau cyfeiriadedd rhywiol eraill.

- Mae cyfran y penodiadau cyhoeddus o bobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Tystiolaeth, Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro – Canfyddiadau allweddol**

- Roedd 19.3% yn bryderus iawn a 28.4% yn weddol bryderus am gyfleoedd cyflogaeth yn y Fro.

- Roedd 26.4% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol i helpu i ennill sgiliau newydd.

- Mae gan 33.6% o breswylwyr gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol a barhaodd dros 12 mis, o'r rhain roedd gan 76% lai o allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

- Byddai 80.3% o'r ymatebwyr yn argymell Bro Morgannwg fel lle i fyw o'i gymharu â 19.7% na fyddai'n gwneud hynny.

- Mae canran yr ymatebwyr a gytunodd yn gryf, neu gytunodd ryw ychydig, fod y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bro Morgannwg o ansawdd uchel yn 29.3%; fod Cyngor Bro Morgannwg yn gweithredu er budd trigolion lleol yn 25.5%; fod Cyngor Bro Morgannwg yn ystyried barn trigolion wrth wneud penderfyniad yn 16.1%; a bod y gwasanaeth a ddarperir gan Gyngor Bro Morgannwg yn cynrychioli gwerth da am arian yn 16.4%.